# ECO'R WYDDFA

RHIF 374 CHWEFROR 2010 PRIS 50c


## Yn y rhifyn hwn:

- Hanes cantores leol
- Aduniad Parti Eryri
- Calonnau carreg i ddathlu cariad
- Hanes Deiniolen – buddugol yn y 'steddfod

# NAWDD GAN TITAN

## CYNGHORAU LLEOL YN ELWA

**Yn rhifyn. Nadolig yr "Eco" roedd llun o gamelod yn Ninorwig, ond dim sôn am wyr doeth. Bellach gallwn ddatgelu fod y gwyr doeth wrthi'n brysur ar y pryd yn didoli ceisiadau am nawdd gan wahanol gynghorau cymuned ardaloedd chwareli llechi Gwynedd.**

Roedd hyn yn sgil y wybodaeth a roes yr "Eco" ar ddalen flaen rhifyn Tachwedd y llynedd, yn datgelu fod tua £50,000 o arian i'w glustnodi gan First Hydro ar gyfer gwahanol brosiectau. Addewid oedd hwn, wrth gwrs, i rannu'r arian a ddaeth o ddefnyddio tir First Hydro, sef hen chwarel Dinorwig, gogyfer á ffilmio "Clash of the Titans". Ffilm yw hon yn ail-greu hanes Perseus yn ceisio achub Andromeda, a threuliodd dros ddau gant o bobl ddeg diwrnod yn ffilmio yn yr hen chwarel. Rhoddwyd hwb i economi'r ardal gan y mewnlif hwn o arian, a bellach, elwodd gwahanol fudiadau o fewn ardaloedd ein cynghorau lleol ar haelioni First Hydro yn dosbarthu'r £50,000 a addawyd.

O fewn bro'r "Eco", mae Cyngor Cymuned Llanberis wedi elwa, gan dderbyn swm sylweddol tuag at wella cae chwarae Fron Deg.

Mae Cyngor Cymuned Llanrug hefyd wedi elwa'n sylweddol, gan dderbyn arian tuag at wella cae chwarae Pwll Moelyn, fydd yn cynnwys mewn-lenwi, offer newydd ac ail-osod llwybrau. Yn ogystal, derbyniwyd arian tuag at gyhoeddi pamffled ar lwybrau cyhoeddus y plwyf (tebyg i'r un a gynhyrchwyd eisoes gan Landdeiniolen). Mae Band Arian Llanrug hefyd wedi derbyn nawdd i brynu offer ar gyfer eu canolfan newydd.

Yn ôl a ddeallwn, mae'r arian a dderbyniodd y prosiectau hyn yn golygu dros £20,000. Llongyfarchwn ein cynghorwyr cymuned (sy'n rhoi eu hamser yn hollol wirfoddol) ar lunio ceisiadau oedd yn amlwg wedi perswadio'r "gwyr doeth" i gyfrannu'n hael tuag at y prosiectau lleol.

Er fod deugain mlynedd wedi mynd heibio ers i chwarel Dinorwig roi cyflog byw i rai o drigolion y fro, mae'n amlwg fod arian i'w wneud o'r garreg las o hyd. Brysied y dydd pan fydd ffilmio unwaith eto i'w wneud yno.

O.N. Bydd y ffilm "Clash of the Titans" yn cael ei rhyddhau ddechrau fis Mawrth. Sgwn i fydd hi'n bosibl adnabod rhai o bonciau'r chwarel ynddi?




*Canolfan newydd Band Arian Llanrug*





*Cae Chwarae Pwll Moelyn, Llanrug*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 374**
**CHWEFROR 2010**
*Argraffwyd gan Wasg Dwyfor Penygroes 01286 881911*
*Cynabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Gosod | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | Sul 31 Ionawr | Sul 28 Chwefror | Iau 4 Mawrth | Llanrug | Goronwy Hughes | 674839 |


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i**
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS SUL 21 CHWEFROR**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU MAWRTH 4**
**Dyddiad Gosod**
**Nos SUL CHWEFROR 28**
**Sefydliad Coffa Llanrug**

## Llythyrau

### GAIR O DDIOLCH

Cilfynydd
Llanberis

*Ymgyrch Plentyn y Nadolig*

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at Ymgyrch Plentyn y Nadolig eleni eto, un ai trwy'r ysgolion lleol neu trwy'r capeli a'r eglwysi. Unwaith eto, anfonwyd cannoedd o focsys o'r ardal, ac mae'r gefnogaeth yn parhau. Diolch hefyd am yr holl roddion ariannol a dderbyniwyd tuag at y gwaith.

Mae'n debyg i lawer ohonoch weld y rhaglen deledu a ddarlledwyd ddechrau Ionawr a ddangosai daith rhai o'r bocsys. Dilynwyd y bocsys hynny o sir Fôn i Romania, ac roedd yn dda gweld y croeso a gâi'r anrhegion a'r pleser a gâi'r plant wrth eu derbyn.

Diolch eto am eich cefnogaeth, ac edrychwn ymlaen, os byw ac iach, at ymgyrch y Nadolig nesaf.

John Pritchard

### LLEISIAU'R AIL RYFEL BYD

Cwmni Da
Cae Llenor, Caenarfon

Oeddech chi'n filwr, yn forwr, neu'n aelod o'r llu awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd? Oeddech chi adre yn gofalu am y teulu, neu'n gofalu am gleifion? Oeddech chi'n gweithio mewn ffatri arfau, oeddech chi'n aelod o Fyddin y Tir? Oeddech chi'n 'ifaciwi', yn wrthwynebwr cydwybodol neu'n 'Bevin Boy'? Sut oedd bywyd yma yng Nghymru rhwng 1939 a 1945?

Mae Cwmni Da wrthi yn paratoi cyfres o raglenni i'w dangos ar S4C yn adrodd hanes yr Ail Ryfel Byd – trwy eiriau'r Cymry fu'n ymladd ynddo ac yn byw drwyddo. Beth bynnag fo'ch stori, hoffwn yn fawr iawn gael clywed gennych.

Hefyd, oes oes gennych yn eich meddiant unrhyw luniau, lythyrau neu ddyddiaduron Cymraeg yn adrodd hanes perthynas neu gyfaill yn ystod y cyfnod rhwng 1939 a 1945, hoffwn i chi gysylltu â mi os gwelwch yn dda.

Gallwch wneud hynny trwy ysgrifennu at Cwmni Da, Cae Llenor, Lôn Parc, Caernarfon LL55 2HH; trwy ffonio (01286) 685 300, neu trwy ebostio mali.parry-jones@cwmnida.tv.

Gan edrych ymlaen at gael clywed gennych yn fuan,
Yn gywir

Mali Parry-Jones

Bryn Dinas
5 Ffordd Coedmor
Bethesda
LL57 3DP
bryn dinas05@hotmail.com

Annwyl Olygydd

Rwyf yn fyfyrwraig ar fy nhrydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor ac yn astudio cwrs 'Astudiaethau Plentyndod'. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn ysgrifennu traethawd hir am lwyddiant *Llyfr Mawr y Plant* ac eisiau darganfod pa mor boblogaidd, mewn gwirionedd, ydyw'r llyfr heddiw.

Os y gwyddoch chi am unrhyw weithgaredd (e.e. Sioeau, caneuon, dramâu ayyb) neu os ydych wedi ymwneud mewn unrhyw ffordd â chynnwys a chymeriadau'r llyfr, mi fyddwn wrth fy modd yn clywed gennych. Ydi'r straeon yn cael eu defnyddio yn eich ysgolion? Beth yw barn plant yn eich teuluoedd ac yn eich ysgolion am y llyfr? Beth yw eich atgofion chi, eich rhieni, eich neiniau a'ch teidiau am y storiau?

Diolch am eich amser
Yn gywir

Elin Mair Jones


Darren Jones
Contractiwr Teilsio
CEGINAU
YSTAFELLOEDD YMOLCHI
A LLORIAU
9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon
(01286) 669090
Mobile-07894818783


## RHODDION

**£25:** Alice a Dafydd Morris, Caer Waun, Penisarwaun.

**£20:** Cathryn James, 1 Rhes Efrog, Llanberis; Merfyn a Rhiannon Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug.

**£10:** Heulwen Edwards, Stryd Fawr , Llanberis; Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis; Mrs Dilys Baylis, Plas Pen Gwaith, Llanberis; Er cof am Mrs Laura Williams, Tan Y Fron, Fachwen; Di-enw, er cof am John Hen Lôn; Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Nancy Williams, 10 Rhes Marian, Deiniolen; Lleufer a Nelma Pritchard, Stad Croes y Waun, Waunfawr; Liz ac Eric Jones, 25 Bryn Tirion, Penisarwaun, er cof am Mrs Gwyneth Jones.

**£5:** Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis; Mair Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Laura Parry Jones, 30 Llys Y Foel, Caernarfon, er cof am Norman Francis Hughes, Llanberis; Mrs Enid Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Elizabeth Foster, 98 Pentre Helen, Deiniolen; Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo; Dilwyn a Rhian Roberts-Jones, Gorwel y Môr, Waunfawr.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR POB CYFLE**


DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
• Pob math o ddodrefn tŷ
• Cegin, 'stafell fyw, llofft
• Prisiau cystadleuol
• Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

# YSGOL BRYNREFAIL



Eleri Brady, cynrychiolydd Cymorth Canser Macmillan yn derbyn siec am £430 gan Enfys Mai Roberts, y brif eneth, a Siôn Elwyn Hughes, dirprwy brif fachgen yr ysgol. Casglwyd yr arian drwy gynnal diwrnod di-wisg i'r disgyblion, a'r staff yn cyfrannu drwy beidio anfon cardiau Nadolig i'w gilydd.

Mae dros 4,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn cael diagnosis o ganser bob blwyddyn.

Gall Macmillan helpu drwy ddarparu:

- Arbenigwyr Iechyd
- Rhywun i siarad â hwy
- Cymorth Ariannol
- Gwybodaeth Glir

## CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Dyma'r enw a fabwysiadwyd gan gymdeithas rhieni ac athrawon Ysgol Brynrefail. Maent yn trefnu nifer o weithgareddau cymdeithasol ac addysgol yn ystod y flwyddyn. Dros y blynyddoedd maent hefyd wedi codi symiau sylweddol o arian i helpu i brynu offer ac adnoddau i'r ysgol, ac ymhlith y gwelliannau hyn mae:

Medi 2008 - £2000 tuag at Sustem Monitro CCTV ar dir yr Ysgol.
Medi 2008 - Sustem Dŵr Yfed Wedi'i ffiltro yn yr Ysgol.
Mai 2009 - Offer Sain Newydd i Neuadd yr Ysgol
Medi 2009 - £2000 tuag at sefydlu ystafell ffitrwydd newydd.

Y digwyddiad nesaf fydd Raffl Pasg yr Ysgol, lle bydd y llyfrau raffl yn cael eu gwerthu gan ddisgyblion blynyddoedd 7 i 9 a bydd y ticedi llwyddiannus yn cael eu tynnu ar 31ain Mawrth 2010. Y gwobrau yw £100, £75, £50.

Y mae'r Gymdeithas Cyfeillion yn awyddus iawn i groesawu aelodau newydd ac aelodau newydd hefyd i'r Clwb Cant. Os oes gennych ddiddordeb yn nyfodol eich plentyn a'r ysgol cysylltwch â swyddfa'r ysgol am fanylion pellach. Nid oes ond trr chyfarfod y flwyddyn ac mi gewch groeso cynnes yn y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 11eg Mai 2010 am 6-30yh.

# CASGLIAD AT ELUSEN CYMORTH CRISTNOGOL



Ann Jane Evans, gweithiwr maes Cymorth Cristnogol yn derbyn siec am £200.00 gan Siôn Elwyn Hughes, dirprwy brif fachgen yr ysgol, gyda chynrychiolwyr o'r 6ed dosbarth.

# PLYGU RHIFYN Y NADOLIG




## GWASANAETH CAROLAU

Nos Lun, 14eg o Ragfyr 2009, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Blynyddol yr Ysgol. Yn anffodus eleni bu'n rhaid cynnal y gwasanaeth yn neuadd yr ysgol oherwydd y difrod i do Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Gwnaethpwyd casgliad ar y noson, gyda chyfanswm o £300.00 yn cael ei gyfrannu gan y gynulleidfa. Rhannwyd y casgliad fel a ganlyn, £200.00 i Gymorth Cristnogol a rhodd o £100.00 i Eglwys Sant Padarn tuag at gostau atgyweirio'r to.

## CLWB CANT

**Enillwyr Hydref oedd:** £31.50: (98) Kathie Jones, Maes y Dref, Clwt y Bont; £18.90: (21) Pat Jones, 59 Glanffynnon, Llanrug; £12.60: H.W. Sutherland, Penybont, Deiniolen. **Enillwyr Tachwedd oedd:** £31.50: (128) Mr O.S. Roberts, Hafod Wen, Llanrug; £18.90: (60) Rhian E. Owen, d/o Ysgol Brynrefail; £12.60: D. a C. Williams, Meini Gleision, Brynrefail. **Enillwyr Rhagfyr oedd:** £31.50: Mr E. Williams, 77 Pentre Helen, Deiniolen; £18.90: (178) Delyth Tomos, Haulfryn, 7 Stryd Charlotte, Llanberis; £12.60: (24) Menai Jones, Bronallt, 4 Tan y Buarth, Bethel.





GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674193
(0589) 899901

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD
GWERTHWYR LLEFRITH
CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych
WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr Ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GWAITH BUDDUGOL YN EISTEDDFOD DEINIOLEN O WAITH EIRLYS WILLIAMS

# Hanes Pentref Deiniolen, yr Hen Ysgol, a'r 'Ysgol Newydd'

## YR HEN YSGOL

Diwrnod mawr a phwysig i fam a'i phlentyn yw hebrwng y bychan i'r ysgol am y tro cyntaf. Bydd dagrau a llawenydd yn gymysglyd iawn, dyma rywbeth na fydd newid arno. Mae'r amser a'r ysgolion wedi llwyr newid er y dyddiau yr oeddwn i yn yr ysgol. Dechreuwn gyda'r ysgol fach, sef y babanod, sydd ar hyn o bryd yn feddygfa leol, ei safle yw yn waelod ffordd Deiniol. Un ystafell fawr hir ydoedd, wedi ei rhannu yn dair rhan yn ôl yr oedran, a Miss Alice Roberts o Benisa'r-waun a Miss Thomas o Ffordd Deiniol oedd yr athrawon. Roedd Miss Roberts yn gwisgo esgid fawr drom. Roedd y plant biti drosti bob amser a neb yn rhyw ddeall pam oedd yn gorfod gwisgo esgid fawr drwm fel honno.

Roedd Miss Roberts yn byw ym Mhenisa'r Waun. Ei thad yn Grydd prysur yn ei weithdy yn 'Ben Lôn' ym mhentref Deiniolen. Dyn prysur iawn rhwng y plant a'r chwarelwyr. Byddai Miss Roberts yn dod a 'brechdan papur' erbyn amser cinio. Y plant yn cael eu cinio gartref. Nid oedd sôn am ginio'r ysgol. Byddem yn edrych ymlaen at brynhawn dydd Gwener i gael chwarae gyda'r teganau. Y ffefryn oedd y llestri bach, gan fod Miss Roberts weithiau yn dweud mai'r plant gorau oedd yn cael chwarae gyda hwy.

Byddai plant bach oedd yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf yn cael mynd ar gefn yr hen geffyl pren oedd yn siglo'n braf, ond heb symud o'i hunfan, yn gwneud iddynt lwyr anghofio eu gofidiau. Stori oedd y plant hynaf yn ei gael. Mae gennyf lun o'r dosbarth, gyda lluniau ar y wal o'r `Hugan Fach Goch' Mae gennyf hefyd lun y dosbarth, ond mae'n amlwg fod plant o'r tri dosbarth ynddo. Maent wedi ei gwasgu i'w gilydd er mwyn i bawb fod yn y llun mae yn debyg, ac nid oedd yna ddim lle i'r athrawon.

Yr oedd dwy iard i'r plant chwarae, un i'r bechgyn a'r llall i'r genethod, a dau doliet yn y ddwy. Doedd dim sôn am ddŵr na chadwyn. Roedd y carthion yn mynd yn syth i fwced oedd o dan y sedd. Dyna oedd yr arferiad ym mhobman y dyddiau hynny, a'r drol yn dod i'w gyrchu ar fore dydd Mawrth. Casglai hefyd y lludw oedd wedi ei adael ar ôl yn y grit, ar ôl i'r tân ddiffodd. Nid oedd sôn am drydan yn y pentref.

Yr oedd wal uchel o amgylch yr ysgol, gydag un giât fawr ac un fychan, oedd yn arwain i'r lle y cedwid dillad y genethod. Roedd giât arall yn ochr y bechgyn, a honno yn arwain at y Lle y cadwent hwythau eu dillad.. Byddai'r plant wedyn yn mynd i'w dosbarth, gyda'r genethod a'r bechgyn yn gymysg yn yr un ystafell. Nid oedd yn bosib i ni weld beth oedd yn mynd ymlaen yn yr Ysgol Fawr, oedd yr ochr arall i'r wal fawr, dim ond clywed sŵn y plant, a hefyd sŵn y gloch fawr oedd ar ben y to.

## YR YSGOL FAWR

Daeth y diwrnod mawr, pan gawsom fynd i mewn i'r `Ysgol `Fawr' am y tro cyntaf, a phawb yn dipyn yn grynedig, mae'n siŵr. Roedd y lle mor fawr, a than glo mewn stôf gron yng nghanol yr ystafell fawr. Roedd mwy nag un dosbarth yn yr ystafell yma. Byddai plant o 'ffordd bell' - hynny yw- rhai oedd yn byw tu allan i'r pentref, fel ochrau 'Cerrig y Nyth' a'r tyddynnod oedd yn y ffridd o gwmpas yr adeg hynny, yn dod a'i cinio gyda hwy.

Mewn piseri bach oedd y bwyd yn cael ei gario i'r ysgol, a'r cynnwys, fel rheol, fyddai Bara Llefrith, Oxo neu rywbeth tebyg. Rhoddid y piseri o gwmpas y stôf i'w cynhesu. Rhaid cofio, eto, nad oedd bwyd i'w gael yn yr ysgol. Felly byddai pawb arall yn gorfod mynd adref amser cinio, a dod yn ôl am un o'r gloch tan dri. Byddai rhaid cael 'brechdan papur' (sandwich i ni heddiw) a'i bwyta ar yr iard am un ar ddeg o'r gloch. Doedd dim teganau yma, dim ond cael stori ar brynhawn Dydd Gwener gan yr athrawes. Ond buan y daethom i arfer.

Y Prifathro oedd Mr R. G. Williams. Dyn gweddol dal, o bryd coch. Un o Rosgadfan yn wreiddiol a briododd gyda merch o'r Pentref a chartrefu yng Nghlwt y Bont.

Yr oedd cloch fawr ar dŵr yr ysgol. Hon fyddai yn ein galw ni bob dydd i'r ysgol am ryw chwarter i naw'r bore, a hefyd am un o'r gloch. Byddai ffrae i'w gael am fod yn hwyr, fel y cofiaf yn dda. Bechgyn y dosbarth hynaf fyddai'n dringo'r grisiau troellog i dynnu'r rhaff. Bechgyn cyn bod yn bedair ar ddeg oed. Rhai a'i bryd ar ffermio, eraill am fynd i'r chwarel gyda'i thad. Bu sôn am hir ein bod am gael ysgol newydd, ac wedi hir ddisgwyl, erbyn Mis Medi, 1928 roedd yr ysgol yn barod. Mae ei sefyllfa yn wynebu'r llyfrgell, a'r buarth y tu ôl. Mae ysgol y babanod yn y rhan gyntaf.

### Diwrnod y symud

Mynd i'r hen ysgol am naw o'r gloch ar ôl gwyliau'r haf yn gynhyrfus a llawn stŵr. Pawb yn eu dosbarth arferol, ond y cypyrddau yn wag a'r cynnwys wedi ei gosod yn fwndeli taclus ar y bwrdd. Dweud Gweddi'r Arglwydd fel arfer yna'r athrawes yn galw a nodi presenoldeb y plant. Y Prifathro a'r athrawes yn rhoi cyfarwyddiadau ar yr orymdaith. Pawb i gario pecyn o lyfrau neu rywbeth oeddem yn ei arfer yn y dosbarth, yna pob dosbarth yn ymgynnull ar y buarth, gyda dau o'r bechgyn hynaf ar flaen y gad yn cario 'Globe'fawr newydd o'r byd.

Yr oedd dipyn o feddwl wedi mynd i'r tu ôl i hyn mae'n rhaid. Diwrnod cyntaf ar ôl gwyliau'r Haf, Tymor Newydd, Ysgol Newydd. Pawb yn ceisio cael dillad newydd. Dosbarth uwch a newydd. Pawb yn gynhyrfus a llawn hwyl, ond roedd yn rhaid ymddwyn, roeddem wedi cael gorchymyn gan y Prifathro, Mr R. G. Williams. Yr oedd y pentrefwyr i gyd allan ond bu raid i'r chwarelwyr fynd i weithio fel arfer. Gwnaed cais gan ysgrifennydd y Seindorf i'r Faenol yn gofyn am ganiatâd i gael arwain yr orymdaith Cafwyd ateb i ddweud na fuasent yn caniatáu, byddai'n rhaid iddynt golli stem. Fedrai neb fforddio i wneud hynny. Roedd pawb 'ar ei orau', a'r cyflog mor isel. Roedd rhai o'r plant a'u tadau yn aelodau o'r Seindorf. Dyna oedd unig siom y diwrnod. Mynd i mewn i'r ysgol fesul dosbarth. Syndod o weld lle mor anferth â'r coridor mor hir ac uchel. Yr olaf cyn troi'r gornel oedd Dosbarth Pedwar, yr hawddaf i'w gofio. Nid oedd hynny yn hollol gywir, gan wedi troi'r gornel yr oedd dau ddosbarth arall, y plant hynaf oedd yma, a'r gegin y tu ôl. Ymhen amser bu rhaid cael estyniad i'r rhan yma, i wneud cegin fwy ac ystafell ginio mawr. Mae yn debyg fod y pethau diweddaraf yno ar y pryd. Rhyw wyth a hanner oeddwn i ar y pryd.

Pan wnaethpwyd i ffwrdd ac Ysgol Dinorwig ac ysgol Llandinorwig daeth y plant i gyd i ysgol Deiniolen, ond y rhai oedd wedi bod yn llwyddiannus yn yr `Entrance Examination'. Roedd yn rhaid talu am gael mynd i mewn trwy basio'r `Entrance Exam'. Ychydig fyddai yn medru fforddio i dalu, gan fod criw o blant yn ambell o deulu, a chyflog y chwarel yn fychan.

### Byw yn Neiniolen

Roedd un stryd o ddeuddeg o dai yn rhedeg i'r gogledd o'r Stryd Fawr, gyda saith o dai un ochr, a phump yr ochr arall. Roedd y stryd yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd, ac yn addas iawn, enwyd y stryd yn 'Porth y Gogledd'. Yma oedd cartref fy nheulu, ac yno y cefais i fy ngeni a'm magu, yn un o saith o blant. Pawb yn gymdogion da i'w gilydd. Rhai o'r tai gyda dwy ystafell wely, ond y mwyafrif gyda thair. Talu rhent oedd fy rhieni i berchennog y tŷ, oedd yn byw drws nesaf, o bymtheg swllt y mis, amser` Cyfrif Mawr' yn y chwarel. Rhyw fath o `bonws' am swm penodol o lechi, ond roedd rhaid i rhain fod yn berffaith gywir o ran mesurau. Roedd ansawdd y graig o'r lle y daeth y llechi yn dibynnu ar hynny. Bargen sâl neu fargen dda y gelwid hynny gan y chwarelwyr. Cyfrif mawr neu isrif. Roedd teulu'r chwarelwr yn gorfod gwneud y gorau y gallent. Y Chwarelwyr oedd yn gorfod talu am bowdwr i danio'r graig a mynd i'r `Cwt Powdwr' i'r Allt Ddu i'w gyrchu, a thalu dwy geiniog am dano.

Hwy hefyd oedd yn gyfrifol am brynu eu harfau eu hunan ar gyfer eu gwaith. Yr oedd y tyddynnod bychain yn perthyn i'r Faenol, ond rhentu'r rhain oedd pawb. Rhywun o weithwyr yr ysgwier arferai ddod i un o'r tai i dderbyn y rhent bob hanner blwyddyn.

Yn yr hen amser cerdded oeddynt i'r chwarel, dim gwahaniaeth beth oedd ansawdd y tywydd, rhag ofn y basa'r stiwardiaid yno o'u blaenau cyn i'r corn ganu ac iddynt golli stem. Yr oedd llawer o'r dynion tua 65 oed, ac yno er pan adawsant yr ysgol pan oeddynt ond yn 13 oed.

Yn y caban ar amser cinio byddent yn trafod y gwahanol bynciau gyda thaeru mawr weithiau, ambell waith byddai rhai wedi eu dewis ar y ddwy ochor er mwyn gwiltio'r gwrthwynebwyr a chael hwyl. Dewiswyd fy nhad lawer gwaith i wneud hynny. Dro arall paratoi ar gyfer Eisteddfod oedd y dasg, Pethau doniol neu hwyliog, dim byd trist. Rhywbeth yn dueddol o fod yn lol, i gael dipyn o hwyl. Un peth gofiaf yn dda yw cystadleuaeth y Gan Actol.

*Hen wraig fach yn sâl eisiau pennog.*
*Ar hyd y nos.*
*Pennog yn y drws a 'r drws yn agored.*
*Ar hyd y nos. (ac ymlaen)*

Roedd Cyngherddau hefyd yn

boblogaidd, gydag adroddiad a chin at bob achos, ac englyn at bob achlysur. Byddai rhaid dewis yn ofalus i gael rhywun oedd yn gymwys at yr achos mewn llaw, gan fod ambell un yn gorfod gadael oherwydd llwch y chwarel, a hwnnw wedi amharu ar ei iechyd, neu wedi mynd yn rhy hen i fedru cymryd rhan. Doedd yna ddim sôn am oed ymddeol yn y chwarel.

Arferai nifer i ddal i weithio a hwythau ymhell tros eu 70 oed. Ni wnaeth fy nhad, (Chris), ddim ymddeol oddi yno tan oedd yn 73 mlwydd oed. Ychydig iawn oedd yn cael eu cyfarch gyda Mr, Mrs neu Miss, dim ond yr athrawon ysgol, ac yn ddistaw bach roed ganddynt hwythau lysenwau hefyd. Doedd hyn ddim yn cael ei gyfrif yn amharchus o gwbl, gan mai dyna oedd yr arferiad. Cafodd fy nhad lysenw, ac felly yr adweinid ef gan bawb ar ôl hynny, yn wir, tybiai rhai mai dyna oedd ei enw bedydd. Cafodd yr enw am ei fod wedi ennill y gystadleuaeth 'Solo cornet' a'r beirniad wedi dweud fod ei arddull o chwarae'r Cornet yn ei hatgoffa o'r modd y chwaraeai'r enwog Chris Smith, oedd yn un o'r goreuon yn y wlad am wneud hynny ar y pryd. Bu ef yn lwcus fod yr enw a gafodd yn un ddigon parchus, ond beth bynnag yr enw, byddai yn rhaid ei dderbyn. Rhyw le fel yna oedd y pentref yma'r amser hynny, bron pob un o'r dynion yn chwarelwr.

Os oedd salwch mewn teulu ac angen help arnynt, buan iawn byddai Cyngerdd yn cael ei drefnu gan un o'i gyfoedion. Y rhai a gymerai ran fyddai 'Enwogion y Cylch', fel y gelwid hwy. Chwe cheiniog neu naw ceiniog oedd y ticedi, ac roedd y neuadd neu'r capel i'w gael yn rhad neu am ddim, a llawer yn rhoi rhyw ddimai neu geiniog yn fwy na'r gofyn, a hynny allan o'i henillion prin am eu tocynnau mynediad.

Cymdeithas glos, a'r holl gymdogion a'i drysau yn ddi-glo. Yr oedd yna nifer o gorau meibion a chorau cymysg, a phartïon bach o ddeuddeg mewn rhif yn y pentref. Cofiaf hefyd am y chwarelwyr oedd yn haeddu seibiant gyda'r nos, yn trafferthu i ddod i'r gweithgareddau hyn, heb ddisgwyl am unrhyw gydnabyddiaeth am y gwaith. Cofier hefyd am y rhai oedd yn aelodau o'r Seindorf a fu mor selog yn yr ymarferion trwy'r blynyddoedd, ac yn llwyddiannus mewn sawl



*Roedd Eirlys Williams yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Ionawr 9fed. Dymunwn y gorau i chwi.*



*Dym lun o chwae Eirlys, Gwyneth Jones, yn 10oed. Hi oedd y ferch gyntaf i chwarae ym Mand Deiniolen tua 80 mlynedd yn ôl.*

Eisteddfod Genedlaethol, a hefyd mewn cystadlaethau eraill ar hyd a lled y wlad.

Rhwng pentrefi Dinorwig, Deiniolen a Chlwt y Bont adeiladwyd deg o gapeli a dwy Eglwys. Ebeneser oedd yr enw gwreiddiol, neu Llanbabo ar lafar gwlad am Ddeiniolen. Yr addoldy cyntaf oedd Ysgoldy (M..C.). Adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1808. Cyn hynny, fel ym mhob ardal, arferid addoli mewn tai.

Un o uchel bwyntiau'r flwyddyn fyddai cael mynd i Fethesda neu Tregarth i Gymanfa'r Plant. Yno yr oedd y Capeli mwyaf y Gylchdaith. Yr amser hynny yr oedd llawer mwy o bobl yn mynychu'r oedfeuon ar y Sul, a hefyd fynd i'r Seiat a'r Gobeithlu. (Band of Hope). Roedd rhaid dysgu'r gwaith yn drwyadl, neu wynebu llygaid treiddgar Miss Hughes, a doedd neb am wneud hynny. Mi weithiodd yn galed yng Nghapel bach y Tabernacl (W) ar hyd ei hoes. Byddai Mam hefyd yn brysur iawn ar gyfer y diwrnod mawr, a'n gyrru at y barbwr. Yr oedd angen pedair ceiniog yr un arnom, ond y broblem fawr oedd cael dillad newydd at yr achlysur. Ofer, fodd bynnag, fyddai disgwyl cael mynd i siopau'r cylch i wneud ein dewis. Byddai Mam yn brysur gyda'r peiriant gwnïo, ac roedd yn cael hwyl eithaf da arni, ond os oedd achlysur arbennig, byddai'n rhaid dod a'r ddau gatalog allan, sef un Oxendale a J. D. Williams. Byddai fy chwaer a minnau wrth ein bodd, a'r amser hynny yr oeddem yn cael dewis, os oedd y pwrs yn caniatáu. Cofiaf ddewis ffrogiau gwyrdd golau, a ruban a brodwaith o gwmpas y gwddf. Roeddem yn meddwl ein hunan yn hynod o 'grand'. Rwyf yn siŵr fod Mam wedi gorfod aberthu tipyn gyda chyflog fy Nhad yn y chwarel. Byddai raid cael y twb golchi allan a berwi digon o ddŵr i fy chwaer a minnau gael molchi a golchi ein gwalltiau, a bocs powdwr Borax arferid at y gwaith, ond roedd yn rhaid i fy nau frawd, fodloni ar ymarfer sebon, gan nad oedd sôn am siampŵ na radox. Gan fod fy ngwallt i yn syth bin, roedd yn rhaid i mi gael cwrls clytiau, a chysgu ynddynt trwy'r noson cynt. Doedd gan fy mrodyr ddim hanner cymaint o stŵr, ond roedd hwythau yn gorfod mynd trwy'r paratoadau hefyd. Rhyw dipyn yn ddi-lun fyddai fy nhad, ond yn cefnogi pob dim ddywedai fy Mam, ac os oedd llwyddiant, byddai yn hynod o falch, ond os yn fethiant, dywedai 'Gei di gyfle eto y tro nesaf'.

O'r diwedd, y diwrnod mawr wedi cyrraedd, a ninnau `n dipyn yn grynedig yn y 'prilym' (rhagbrawf) cyntaf. Os byddai llwyddiant, gorfod mynd trwy'r un peth wedyn, a hynny mewn capel mawr ym Methesda neu Dregarth. Byddai'r capel mawr bron yn llawn o bobl.

Arferem edrych ymlaen am gael te yn y festri, a the arbennig o dda fydda fo hefyd. Yr oedd bwyd yn symlach yr amser hynny. Os oedd gennym ni ddwy geiniog ar nos Wener, mi gawsem ni sglodion mewn papur, a photel o 'Lemonade'. Tua chanol yr wythnos, os oedd gennym ddimai, mi fuasem yn medru prynu 'Cornet'. Mae yn debyg mai dyna'r tro cyntaf i mi ei flasu. Roedd dyn o Gwm y Glo yn dod a fo mewn rhyw fath o focs pren ar olwynion, a dau bren, un pob ochr i'r bocs, yn cael ei ymarfer fel llorpiau trol. Mae yn rhaid bod yna rew yn ei grombil yn rhywle, a da o beth ydoedd nad oedd arolygwyr iechyd mewn bodolaeth y pryd hynny.

Do, mae pethau wedi newid llawer gwell, ond ysywaeth, rhai pethau wedi newid er gwaeth. Nid oes yn rhaid i mi enwi dim byd, mae gan bawb ei farn.

J. EIRLYS WILLIAMS.
3, Pentre Helen, Deiniolen.


**Stôf Draddodiadol neu FODERN**
**i gynhesu eich tŷ**
**CYSYLLTWCH Â**
fflam.biz
**JOHN HUGHES a'i FAB**
IARD LO · Carmel · Gwynedd
01286 882160

**FFRAMIA**
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul
THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS
*wrth droed yr Wyddfa*
Ffôn: 0870 832 9903

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

## NEWYDDION HWYR ECO NADOLIG 2009

***Roedd y canlynol wedi eu hanfon yn ddigon buan i'r rhifyn olaf ac ymddiheurwn na fu iddynt gael eu cyhoeddi cyn y Nadolig.***

DECHRAU CANU. Bydd y rhaglen o Ganu Carolau, a recordiwyd yn Eglwys Sant Padarn ar yr 2ail o Ragfyr ar gyfer Dechrau Canu, yn cael ei darlledu ar Nos Sul 27ain o Ragfyr.

CYFARCHION NADOLIG. Ni fydd Wilbert Davies, 7 Rock Trc, Llanberis yn anfon cardiau allan y flwyddyn yma, ond mae'n gyrru dymuniadau da i bawb.

CYFARCHION NADOLIG. Mae Megan Owen, 59 Maes Padarn, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w chymdogion a'i holl ffrindiau gan na fydd yn gyrru cardiau'r flwyddyn hon.

DIOLCH. Dymuna Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton, ddiolch o galon i'w chymdogion a chyfeillion am bob cymwynas, cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DIOLCH. Dymuna Heulwen Edwards ddiolch o galon i bawb am alw, ffonio ac anfon cardiau a blodau wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hoffai Trefor a Heulwen ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a Nant Peris.

DIOLCHIADAU. Mae Mair Jones, 19 Maes Padarn, yn dymuno diolch yn fawr am yr holl ddymuniadau da a charedigrwydd hael a ddangoswyd tuag ati yn ystod, ac ar ôl, ei llawdriniaeth, gan ei theulu, ffrindiau a chymdogion, ac am y gofal ar Ward Enlli a chan Feddygfa Llanberis.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan na fydd yn anfon cardiau'r Nadolig hwn.

* * *

DIOLCH. Dymuna Enid, Delfryn, ddiolch o galon i'w chymdogion a ddaeth i'w chynorthwyo pan syrthiodd a thra roedd yn aros am yr ambiwlans. Diolch hefyd i'r holl gymdogion a ffrindiau am ymweld â hi tra roedd yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod gartref, ac am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn. Hefyd, diolch yn fawr iawn am y Cardiau Nadolig. Diolch o galon i bawb.

CYMDEITHAS UNDEBOL LLANBERIS. Cafwyd noson braf yn canu carolau a dathlu'r Nadolig yn festri Capel Coch, Nos Fawrth, 8ed o Ragfyr. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard. Cymerwyd rhan gan Gôr Lleisiau Lliwedd, a darllenwyd adnodau gan rai o'r aelodau. Arweinydd y Gân ar y noson oedd Mrs Bethan Holding, gyda Mr Gareth Jones yn cyfeilio.

Bu raid gohirio cyfarfod o'r Gymdeithas ar y 12ed o Ionawr oherwydd y tywydd garw. Mae'r cyfarfod wedi ei aildrefnu ar y 26ain o Ionawr yn festri Capel Coch am 7.15yh, pryd ceir sgwrs gan Mr Ken Jones, Llanberis.

Bydd cyfarfod Mis Chwefror ar y 9ed am 7.15yh yn Festri Capel Coch, pryd y bydd 'cwis' wedi ei baratoi ar ein cyfer gan y Parchedig John Pritchard (dim rhy anodd, gobeithio!). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

TE BACH NADOLIG. Diolch i bawb a ddaeth i ymuno â Chôr y Bytholwyrdd yn Festri Capel Coch ddydd Mercher, Rhagfyr y 9ed. Arweinydd y prynhawn oedd Mr John H. Hughes. Arweinydd y Gân oedd Mrs Mattie Hughes a'r cyfeilydd Miss Marcia Thomas. Roedd aelodau'r Côr wedi paratoi Te Bach blasus ar ddiwedd y canu. Rhoddwyd y diolchiadau gan y Parchedig John Pritchard.

DIOLCHIADAU. Dymuna Dilys Baylis ddiolch i bawb am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod y Nadolig. Hefyd i bawb a fu yn ymweld â hi yn Plas Pen Gwaith. Pleser o'r mwyaf oedd cael sgwrs gyda chyfeillion, trigolion a hen gwsmeriaid Meirionfa gynt.

MARWOLAETH. Yn dawel yn ei gartref yn Beckenham, Kent, bu farw Norman Francis Hughes yn 82 oed. Mab ydoedd i Lizzie a Jack Francis Hughes a oedd yn byw yn 14 Stryd Turner, Llanberis. Roedd Norman yn hoff iawn o'r hen Lanber, ac yn dod yn ôl yma gyda'i bedwar plentyn, bob haf.

PEN-BLWYDD. Dymuna Ted Morris,16 Maes Padarn, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

EISTEDDFOD YR URDD. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i sefydlu pwyllgor apêl lleol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012 yn y ganolfan am 7.00, nos Lun Chwefror 22ain, Croeso i bawb.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mair Jones, 8 Hafan Elan, Llanrug, ddiolch i'w chymdogion, ffrindiau a'r teulu i gyd am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Cafodd barti bach gyda'r teulu a ffrindiau a mwynhau y cyfan yn arw. Llongyfarchiadau mawr i chi.

CAPEL COCH

Oedfa'r Plant. Cynhaliwyd oedfa Nadolig y plant nos Sul, Rhagfyr 20. Diolch yn fawr iawn i athrawon yr Ysgol Sul am bopeth a wnaethant i baratoi ar gyfer yr oedfa. Roedd graen ar y cyfan, a'r oedfa'n gyfle arbennig i bawb gofio am ryfeddodd geni Ceidwad Byd ym Methlehem.

Roedd Drama'r Geni yng ngofal plant y ddau ddosbarth lleiaf. Cyflwynodd y ddau ddosbarth arall eitemau wedi eu seilio ar y Rhyfel Mawr a'r Chwarel.

Yng nghanol yr holl sôn am ryfela heddiw, mae ein plant, gwaetha'r modd, yn gyfarwydd unwaith eto â'r dioddefaint a achosir gan ryfeloedd. Felly cyflwynwyd eitem yn sôn am y cadoediad a gafwyd ar faes y gad un dydd Nadolig yn ystod y Rhyfel Mawr. Dangoswyd milwyr y ddwy ochr yn mentro i'r Tir Neb i sgwrsio ac i chwarae pêl droed a chanu carolau, cyn ail ddechrau ymladd drannoeth.

Yr haf diwethaf, bu'r ardal yn cofio Cau Chwarel Dinorwig ddeugain mlynedd yn ôl; a chafwyd eitem yn sôn am ddathlu'r Nadolig mewn tri chyfnod gwahanol yn hanes y Chwarel, sef y cyfnodau a gynrychiolir gan dai yr Amgueddfa Lechi. Pwysleisiwyd mai'r Un yw Iesu Grist ym mhob cyfnod, a'i fod yr un o hyd heddiw.

Diolch i'r plant a gymerodd ran. Diolch hefyd i'r parti o athrawon a rhieni fu'n canu yn y gwasanaeth. Cafwyd cyfle ar ddiwedd yr oedfa i sgwrsio dros baned a mins pei, a diolch i bawb a fu'n trefnu hynny.

Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb a fu'n help i baratoi'r llwyfan ar gyfer cyflwyniadau'r plant. Eleni eto, roedd llwyfan wedi ei godi dros set fawr festri Capel Coch, a gwerthfawr-ogwn yn fawr yr ymdrech i'w godi.

Cawsom breseb newydd ar gyfer yr oedfa, wedi ei wneud yn arbennig ar ein cyfer gan Mr Edwyn Roberts, Gwenallt. Diolch yn fawr iawn iddo am ei gymwynas, ac edrychwn ymlaen at flynyddoedd o ddefnydd ar y preseb bob Nadolig.

PARTI NADOLIG.

Cynhaliwyd Parti Nadolig Ysgolion Sul yr Ofalaeth yn festri Capel Coch nos Lun, Rhagfyr 21. Dyma'r tro cyntaf i blant Deiniolen ymuno yn y parti yn Llanberis; ac roedd yn braf iawn gweld y festri'n llawn o blant. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd nwyddau a bwyd ac arian ar gyfer y parti, ac i bawb a fu'n helpu i baratoi ar gyfer y parti ac yn gweini'r bwyd. Mae'r cydweithio braf yn help ac yn galondid mawr.

Cafwyd hwyl wrth chwarae gemau cyn i Siôn Corn ddod i roi anrheg i'r plant. Roedd ganddo lyfrau Cristnogol i'r plant o'r dewis eang sydd ar gael erbyn hyn. Diolch yn fawr i Siôn Corn am ddod atom eleni eto. Rydym yn falch o'i weld bob blwyddyn.

Cynhaliwyd Oedfa Gymun fore'r Nadolig dan arweiniad y Gweinidog, a chafwyd cynulleidfa dda eleni eto. Mae'r Ysgol Sul wedi ailddechrau, ac estynnwn groeso cynnes i blant newydd ymuno â ni yn festri Capel Coch am 11.15 o'r gloch ar fore Sul. Cofiwch fod manylion llawn am holl weithgareddau Capel Coch a gweddill yr Ofalaeth i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth yn

**www.gronyn.org**


**PADARN LAKE**

LLANBERIS (01286) 870260



PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL GYMUNED
Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda a chroeso yn ôl i bawb. Yn anffodus wedi diwrnod cyntaf y tymor daeth yr eira a bu'n rhaid cau yr ysgol - ond mae pawb bellach wedi setlo'n ôl i drefn arferol yr ysgol ac yn brysur wrth eu gwaith. Diolch i bawb am eu cydweithrediad yn ystod y cyfnod hwn.

Wedi rhybudd Mr. Jackson i bawb gadw'n saff yn ystod y gwyliau, yn anffodus daeth nifer i'r ysgol gydag anafiadau ar gychwyn y tymor newydd. Ein dymuniadau gorau am wellhad cyflym i'r plant, staff a llywodraethwyr sydd wedi brifo'n ddiweddar!

Braf yw cael estyn croeso i fyfyriwr o Brifysgol Bangor i'n plith. Bydd Gethin Philips yn treulio cyfnod yn nosbarth Peris gyda'r babanod yn ystod y mis. Mae'r plantos wedi gwirioni gyda Mr. Philips ac yntau wedi ymgartrefu'n braf yn y dosbarth. Ein diolch iddo am ei waith ac ymagwedd, a'n dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

Daeth yn amser i ffarwelio gyda Miss Christine Jones ,sydd wedi bod yn gymhorthydd yn nosbarth Peris ers dros flwyddyn. Mae wedi symud ymlaen i swydd newydd a dymunwn y gorau iddi.

Bydd disgyblion blwyddyn 6 yn ymweld â Phlas Tan y Bwlch tuag at ddiwedd y mis i ymgymryd â gweithgareddau awyr agored. Gobeithio bydd y tywydd yn ffafriol i chi blant, Miss Williams a Miss Jones!

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd cinio Nadolig blasus iawn yn y Doc Caernarfon ar 8 Rhagfyr. Daeth nifer o'r aelodau a'u ffrindiau i'r cinio, hefyd y Parch Roger Donaldson a'r Parch Jeffrey Hughes.

Cafwyd gwasanaeth a charolau yn Eglwys Sant Mair, Caernarfon, ar 15 Rhagfyr a gwasanaeth a gweddiau bnawn Mawrth, 19 Ionawr.

Bydd y cyfarfod nesaf bnawn Mawrth, 16 Chwefror, yn Feed My Lambs, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Rebecca, merch Nigel Starkey, Ty'n Gerddi Uchaf, ar ei pherfformiad fel Dorothy yn sioe Gerdd 'The Wizard of Oz' yn Galeri, Caernarfon. Mae Rebecca yn ddisgybl yn ei blwyddyn olaf yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Pob dymuniad da iddi yn y dyfodol.

CAPEL Y TABERNACL. Brynhawn a nos Iau, 10 Rhagfyr, cawsom wledd gyda phlant yr ysgol yn perfformio eu Sioe Nadolig. Thema eleni oedd 'Tyfu i Fyny'. Diolch i'r prifathro a'r athrawon am hyfforddi a gofalu am wisg arbennig i bob plentyn. Diolch i'r plant am ddysgu eu rhannau a pherfformio mor dda. Hyfryd oedd gweld cymaint o rieni a ffrindiau wedi dod i'r ddau berfformiad.


Nos Sul, 20 Rhagfyr, gyda'n gweinidog, y Parch Gwynfor Williams, gweinyddwyd y Cymun ac yna, wedi'r oedfa, cafwyd sgwrs gyda phaned a mins pei. Diolch i Dafydd a Vera Price am ofalu am y cyfan.

LLONGYFARCHIADAU i Eirwyn Williams, Llwyncoed ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed.

DIOLCH. Dymuna Eirwyn Williams ddiolch yn ddiffuant i'w deulu a ffrindiau am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Mair Williams, Elidir View, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Laura Williams, gynt o Lanberis, hefyd i Michelle Williams, 3 Dôl Afon, ar golli ei nain.

# Calennig yn gyfan ... gymerwch chi wefan?




Bydd hi'n sicr o fod yn flwyddyn newydd dda i nifer o glybiau a chymdeithasau yng Nghymru eleni, wrth i wasanaeth ar-lein Golwg 360 gynnig cyfle gwych iddynt ddatblygu gwefan yn rhad ac AM DDIM!

Mae'r cyfle unigryw yn dod wrth i'r gwasanaeth newyddion ar y we lansio elfennau newydd ar y safle. Un o'r rheiny yw 'Lle Pawb' sy'n rhoi cyfle i glybiau, cymdeithasau ac unigolion greu gwefan fach iddyn nhw eu hunain heb unrhyw gost!

Dywedodd Prif Weithredwr Golwg360, Owain Schiavone,

'Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio Golwg 360 i gael y newyddion diweddara' – does dim angen aros am fwletin; mae straeon newydd yn ymddangos trwy'r dydd bob dydd fel y maen nhw'n digwydd.

'Mae'n cynnwys pob math o feysydd, o chwaraeon i gerddoriaeth, o wleidyddiaeth i rai o'r pethau rhyfedd ac ofnadwy sy'n digwydd ar hyd a lled y byd.

'Ond, rydym am i'r gwasanaeth fod yn llawer iawn mwy na gwasanaeth newyddion yn unig, ac mae lansio Lle Pawb yn un cam i'r cyfeiriad hwnnw.'

Lansiwyd Golwg 360 ym mis Mai, ac ers hynny mae'r gwasanaeth newyddion wedi tyfu'n raddol ac erbyn hyn yn cyhoeddi mwy na 30 o storïau bob dydd ar gyfartaledd – gan gynnwys straeon hollol newydd a gwahanol.

'Rydym yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth newyddion,' meddai Owain, 'mae'n cynnig amrywiaeth o storïau o wahanol feysydd. Nawr rydym am roi cyfle mwy uniongyrchol i grwpiau, cymdeithasau ac unigolion gyhoeddi eu newyddion diweddaraf nhw'.


'Y ffordd syml i wneud hynny yw trwy gyfrwng is wefan o fewn gwasanaeth Golwg 360. Mae'n gyfle perffaith i hyrwyddo achos yn gyson, a hynny'n rhad ac am ddim – y calennig delfrydol ar ddechrau blwyddyn newydd!'

Felly, os ydych yn awyddus i gael gwefan am ddim i'ch grŵp neu gymdeithas, Lle Pawb ar wefan www.golwg360.com yw'r lle i chi. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Golwg 360 trwy ffonio 01570 423 529, e-bostio cymorth@golwg360. com neu daro draw i'r wefan, wrth gwrs.









# UN FUNUD FACH

## COFIO HAITI

Yn eu hanfod, mae papurau bro yn delio â'r hyn sy'n digwydd o fewn bro arbennig. Pethau'n ymwneud â'r fro sy'n cael sylw, a newyddion am ddigwyddiadau lleol sy'n llenwi'r tudalennau. Ychydig iawn o ddigwyddiadau cenedlaethol sy'n mynnu sylw ym mhob un o'r papurau yn yr un mis, ar wahân i bethau fel Etholiad Cynulliad neu Etholiad Cenedlaethol.

Ond synnwn i ddim na fydd rhyw gyfeiriad at yr hyn a ddigwyddodd yn Haiti ganol Ionawr ym mhob papur bro trwy Gymru'r ddau fis nesaf yma. Fwy na thebyg y bydd rhai yn cyfeirio at y ddaeargryn mewn colofn o fyfyrdod. O bosibl y ceir llythyrau oddi wrth elusennau'n apelio am arian. Ac yn sicr bydd dwsinau lawer o gyfeiriadau yn y colofnau newyddion yn sôn am gasgliadau a digwyddiadau arbennig a drefnwyd er mwyn codi arian i helpu pobl Haiti. A bydd yr holl gyfrannu hwnnw yn dyst i'r arswyd a deimlodd pawb o glywed am y ddaeargryn, a'u hawydd dwfn i wneud yr hyn a allant i leddfu rhywfaint ar boen y bobl a ddioddefodd cymaint. Bydd y cyfrannu hael hwnnw'n sicr i'w weld yn y fro hon.

Mae'n amlwg fod llawer iawn o'r bobl a ddioddefodd yn Haiti yn canfod cysur a gobaith trwy eu ffydd yn Nuw. Gwelsom oedfaon awyr agored y Sul cyntaf hwnnw wedi'r trasiedi; clywsom am fam oedd wedi colli bachgen bach chwech oed yn y ddaeargryn yn geni babi bach mewn ysbyty stryd ac yn dweud ei bod am ymddiried yn Nuw i fagu ei babi bach newydd; a gwelsom fwy nag un a achubwyd o'r adfeilion yn moli Duw'n agored. Clywsom hefyd, yn naturiol, rai fel y gwr hwnnw yn y macs awyr a ddywedodd fod gan Dduw, mae'n debyg, gynllun rhyfedd iawn ar gyfer pobl Haiti. Diolchwn am y ffydd a alluogodd filoedd o bobl i geisio Duw a'i nerth. Diolchwn eu bod wedi canfod yn yr amgylchiadau mwyaf enbydus fod Duw yno yng nghanol y dioddef i gyd, yn gynhaliaeth a chadernid a sicrwydd iddynt. A chydymdeimlwn â'r bobl a'i cafodd yn anodd ymddiried yn naioni Duw wrth weld y fath ddinistr o'u cwmpas. Gweddïwn y byddant hwythau'n profi'r breichiau tragwyddol yn eu cynnal yn eu colledion a'u profedigaethau. Mae'r Duw trugarog yn deall y dryswch a'r dicter a'r boen sy'n dod yn sgil y fath ddioddef. Mae'n awyddus i ymgeleddu'r gwan a'r dioddefus a'r gorthrymedig. Gweddïwn y daw llaweroedd i weld mor wir yw hynny wrth iddynt fynegi eu dicter a'u dryswch yng nghlyw, a hyd yn oed i glyw'r Brenin Mawr.

JOHN PRITCHARD

# ADUNIAD PARTI ERYRI

Yn ddiweddar, yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis, cynhaliwyd aduniad o aelodau Parti Eryri, y parti Noson Lawen hynod boblogaidd a fu'n diddanu cynulleidfaoedd ledled Cymru a thros Glawdd Offa rhwng 1967 a 1987, gydag ymddangosiadau rheolaidd ar y teledu mewn rhaglenni fel *Hob y Deri Dando* ac *Ysgubor Lawen*. Yn ychwanegol cyhoeddwyd tri disg a fu yn uchel yn siartiau'r Cymru am gyfnodau hir. Roedd amryw o'r pum aelod ar hugain yn dod o ddalgylch Eco'r Wyddfa a'r gweddill o Gaernarfon a Dyffryn Nantlle, ac yn wir, daeth un neu ddau yn ôl i'r henfro i ddathlu'r aduniad a braf oedd eu croesawu'n ôl.

Deallir y bydd cyfarfod arall o'r aelodau brynhawn Iau, 11 Chwefror, yng Nghapel Caeathro (y man yr arferai'r parti ymarfer yn wythnosol) am 2.00 y prynhawn pryd y dangosir DVD awr o hyd a wnaed yn cofnodi hynt a helynt Parti Eryri yn ystod yr ugain mlynedd y bu yn diddori. Yn ogystal ceir cyfle arall i gymdeithasu uwch paned o de, yn ôl merched y parti. Gofynnir i'r aelodau o ddalgylch Eco'r Wyddfa hysbysu y rhai o'r tu allan o'r cyfarfod hwn.

ROL WILLIAMS

# CALONNAU CERRIG I DDATHLU CARIAD

Mewn yfnod o ddyddiau rhamantus, Diwrnod Santes Dwynwen (25 Ionawr) a Sant Ffolant (14 Chwefror) beth am alw draw i Amgueddfa Lechi Cymru i gael anrheg unigryw i'ch anwylyd – calon lechi wedi ei gwneud â llaw?

Mae'r calonnau carreg yn unigryw i'r amgueddfa a chrefftwyr y chwarel sy'n eu gwneud nhw, fel esboniodd y swyddog marchnata, Julie Williams:

'Mae ein crefftwyr wedi bod yn gwneud calonnau llechi ers sawl blwyddyn bellach ac maen nhw bob amser yn boblogaidd gyda'n hymwelwyr am eu bod nhw'n roddion arbennig. Gellir eu defnyddio fel cardiau bach neu labeli anrhegion. Mae rhai wedi eu defnyddio fel anrhegion priodasau a gallwch ddefnyddio'r mwy o faint (5") fel matiau dal diod neu plac ar y wal.'

Ac i unrhyw un sy'n galw mewn ar diwrnod Santes Dwynwen ei hun bydd siocled siâp calon ar gael hefo pob panad yn y caffi!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a'r amgueddfa ar 01286 870630 neu ymwelwch â'r safle we www.amgueddfa cymru.ac.uk.

## Relic

*(Myfyrdod am y Torgoch – Salvelinus alpinus perisii – wedi'r cyhoeddusrwydd am ddyfodol y pysgodyn oherwydd yn algae yn Llyn Padarn)*

Yma, cartre'th hil ers deng mil a mwy
o flynyddoedd er pan glowyd y cwm
â dorau rhewlifiad symudodd drwy
Peris a Phadarn o'r mynyddoedd crwm,
Fel 'r eogiaid oeddyt – o'r moroedd brâs
yn ôl i'r feithrinfa'n y bala bêr,
gwybod yn d'ymysgaroedd – lif a blas -
'dyma yr hen le' dan gromell y sêr.

Dy dor coch-fachlud dan wyrddlas dy gefn
ddenodd 'r henafiaid cyntefig y graig
i bwytho ecoleg parthau i'r drefn
â phatrwm amser dy dymhorol saig.

Esgeulustod cibddall ein dyddiau ni
heddiw yw croesffordd i'th yfory di.

NORMAN CLOSS (FACH-WEN)



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffôn Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

# GAYNEY GRIFFITH



**Un o sêr cerddorol y fro yn yr oes a fu oedd Gayney Griffith, cantores gyda llais soprano peraidd, a fyddai wedi bod yn adnabyddus iawn i bawb yn ardal yr Eco ar ddiwedd y Ddeunawfed Ganrif.**

Magwyd Gayney yn y Weirglodd-ddu, y bwthyn cyntaf ar y dde wrth gyrraedd Nant Peris o gyfeiriad Llanberis. Bwthyn un llawr ydi'r Weirglodd-ddu sy heb newid rhyw lawer ers dyddiau magwraeth Gayney. Gwyddwn fod Gayney yn aelod selog o Gapel Rehoboth, Nant Peris, ac mae'n siŵr ei bod wedi cael sawl cyfle i ganu yno ar y Sul ac mewn eisteddfodau. Yn ôl y rhai a oedd yn ei chofio, aeddfedodd Gayney yn ferch ifanc dlos a thal. Mae sôn fod yna ddwy Gayney yn aelodau o Gapel Rehoborth a'r ddwy yn gantorion talentog, cyfeirir at y llall fel Gayney Ty'n Pant, a oedd gyda llais alto arbennig.

Ganwyd Gaeney yn 1850 a bu iddi fyw yn y Nant nes iddi ei derbyn yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth tua 1878, i astudio cerddoriaeth o dan yr Athro enwog Joseph Parry, Pencerdd America. Roedd yr Athro Parry wedi dychwelyd i Gymru o America yn 1874 i geisio datblygu hyfforddiant cerddorol ar gyfer y Cymry. Roedd yna alw mawr ymysg cerddorion ifanc a brwd Cymru i astudio o dan yr Athro Parry, felly mi fyddai'n rhaid i Gayney fod wedi llwyddo mewn Arholiad Mynediad arbennig ar gyfer darpar fyfyrwyr. Mae'n sicr ei bod wedi argyhoeddi yr Athro Parry o'i dawn gerddorol a'r posibiliadau iddi fod yn gantores glasurol.

Roedd 1878 yn flwyddyn bwysig yn hanes cerddorol Cymru. Dyma pryd y perfformiwyd yr opera Gymraeg gyntaf erioed. Perfformiwyd 'Blodwen', a gyfansoddwyd gan yr Athro Parry, am y tro cyntaf yn gyhoeddus yn y Neuadd Ddirwest, Aberystwyth, ar 21 Mai 1878. Canwyd rhan Blodwen gan y brif soprano, Hattie Davies (myfyrwraig arall), a rhan Ellen gan Gaeney, yr ail soprano. Ymysg y perfformwyr eraill yr oedd Lucas Williams, y bariton enwog a fyddai'n canu yng Nghyngherddau'r Crystal Palace, Llundain. Roedd 1878 yn flwyddyn fawr yng ngyrfa Gayney gan iddi hefyd berfformio ym mis Gorffennaf y flwyddyn hon gyda Llew Llwyfo a'i fab yng nghyfraithb James Sauvage, yng Nghemaes, Ynys Môn.

Perfformiwyd 'Blodwen' a 'Jerusalem', sef cantata newydd yr Athro Parry, ar daith drwy Gymru a Lloegr, gan gyrraedd Llundain a Chaergrawnt. Defnyddiodd yr athro Parry unawdwyr ei Adran ar gyfer perfformio'r ddau waith. Uchafbwynt y daith oedd perfformio 'Jerusalem' yng Nghapel Sant Ioan, Caergrawnt, ar 13 Mehefin 1878. Perfformiwyd y ddau waith yn yr Alexandra Palace, Llundain, gyda'r Athro Parry yn arwain cerddorfa'r Alexandra Palace. Gallwn fod yn weddol sicr mai Gayney a ganodd ran Ellen ar y ddau achlysur.

Ar 12 Mai, 1879, perfformiwyd 'Blodwen' ym Mlaenau Ffestiniog ac yng Nghaernarfon ar 24 Mai. Cafwyd llwyddiant ysgubol yng Nghaernarfon gyda tua 3,000 yn bresennol yn y Pafiliwn i'w chlywed. Hysbysebwyd perfformiad Caernarfon yn y North Wales Express ar 23 Mai 1879, gyda enw Gayney ymysg y prif gantorion. Gwnaed trefniadau i berfformio 'Blodwen' yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri, Llanberis, ar 21 Awst 1879, a chodwyd adeilad newydd dros dro ar gyfer yr achlysur. Er fod hysbyseb wedi ymddangos ar dudalen flaen y North Wales Express ar 15 Awst 1879, yn cadarnhau enwau'r perfformwyr, mae'n annhebygol fod unrhyw un yn Nant Peris wedi amau am eiliad na châi Gayney y cyfle o ganu ym mro ei mebyd. Ond siomwyd pawb gan ddau ddigwyddiad anffodus a olygai na fu'n bosibl perfformio'r gwaith yn Llanberis. Lai nag wythnos cyn y perfformiad caewyd y rheilffordd rhwng Llanberis a Chaernarfon oherwydd difrod i'r cledrau.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, ar nos Lun, 18 Awst, daeth gwyntoedd mawr i'r fro gan ddymchwel yr adeilad newydd i'r llawr.

Achubwyd y sefyllfa gan ymyrraeth rheolwr Pafiliwn Caernarfon a gynigiodd y Pafiliwn i'w ddefnyddio ar gyfer yr yr Eisteddfod a pherfformiad 'Blodwen'. Yn ôl adroddiad yn y North Wales Express bu'n bwrw glaw mawr ar ddiwrnod y perfformiad, ond cliriodd erbyn y min nos i alluogi ymwelwyr i fynd i mewn i'r dref. Er gwaethaf y holl helynt fe aeth y perfformiad ymlaen yn llwyddiannus, gyda Gayney yn canu rhan Ellen.



Priododd Gayney yn hwyr yn ei hoes gyda Ifan Richard Evans, Y Fron, Nant Peris. Bu i'r ddau ymgartrefu yng Nghwm Eilir, tyddyn a leolir rhwng y Nant a Llanberis. Ond bu farw Ifan yn 1911 yn 54 mlwydd oed. Mae tipyn o ddirgelwch am weddill oes Gayney. Mi fu'n byw am gyfnodau hir gyda aelodau o'i theulu ac ymweld â chyfeillion ar hyd a lled y wlad. Tebyg iddi aros am gyfnod gyda'i chwaer, Mrs Ann Williams, a arferai fyw yn Ty'n Twll, Nant Peris.

Yn y 1930au ymgartrefodd gyda Mr a Mrs Huw Dafydd Hughes, Tŷ'r Ysgol. Roedd Mrs Hughes yn adnabyddus fel Saesnes a Phabyddes ac yn fawr ei gofal o hen bobol oedd yn unig. Treuliodd o leiaf flwyddyn gyda'i theulu yn Lerpwl.

Treuliodd Gayney gyfnod olaf ei hoes yn y Wyrcws yng Nghaernarfon. Y rheswm iddi fynd i'r Wyrcws oedd ei bod wedi mynd yn ddiymgeledd ac yn anghofus. Cawsai fynd i gartref petai byw heddiw. Bu farw yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, ar 5 Ragfyr 1942 yn 92 mlwydd oed.

Cyfansoddwyd englyn teyrnged iddi gan Glan Rhythallt, dyma'r ddwy linell olaf:

*Ei hynod a'i hoff enw da*
*Caddug y bedd nis cuddia*

Ers imi ysgrifennu am Gayney ddiwethaf yn yr *Eco* mor bell yn ôl â Gwanwyn 1991, cefais ymateb oddi wrth y diweddar Mrs Mair Closs Roberts, ac ymwelais a hi yng nghartref ei merch, Yr Athro Elen Closs Stephens, Aberystwyth. Magwyd Mrs Roberts yn y Garreg Wen, Nant Peris, a bu'n athrawes yn ysgol y Nant rhwng 1932 a 1934, cyn symud i Ysgol Talysarn, Dyffryn Nantlle. Diddorol iawn oedd cwrdd â Mrs Roberts, bonhedd-wraig hawddgar a chroesawgar iawn. Hoffwn ddiolch i Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilary Williams, gor-nithoedd Gayney am lun ohoni.

Mi fuasai gennyf ddiddordeb mewn clywed unrhyw hanesion am Gayney oddi wrth ddarllenwyr yr *Eco*.

HEFIN GWILYM

(*Mae Hefin Gwilym yn byw ym Mangor ac yn darlithio mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei wreiddiau yn Nant Peris ar ochr ei fam ac yn fferm Llwyn-y-Coed, Cwm Y Glo, ar ochr ei dad. Cyfeiriad cartref: Prysor, 9 Cilgant Alotan, Penrhos-garnedd, Bangor, LL57 2NG. Ffôn: 01248 354009. neu Ebostio:* **hefingwilym@tiscali.co.uk**)



*Capel Rehoboth Nant Peris*

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

APEL BETHEL. Cafwyd gwasanaeth cofiadwy gan blant yr Ysgol Sul ar fore 20fed o Ragfyr 2009. Trefnwyd y rhaglen ar y thema 'Ugain mlynedd yn ôl' pan ddaeth Wal Berlin i lawr, ac am y brenin Wenslas a roddodd obaith gwell i'w bobl. Yr wyth o lefarwyr oedd Fflur, Lowri, Siôn, Gwenno. Moli, Ffion a Dyfan heb anghofio, wrth gwrs, Mair a Joseff, Angylion, Bugeiliaid a'r Gŵyr Doeth. I arwain Mair a Joseff at y preseb, canodd Moli, Siôn, Cai a Gwenno, 'A welaist ti'r ddau'. I ddiweddu'r cyflwyniad canwyd 'Hei, Hei, Hei' gan y plant i gyd. Diolchodd y Parch Gwynfor Williams am y trefniant, ac i'r athrawon am eu gwasanaeth, ac yn arbennig i'r plant am ddysgu'r gwaith ac am y darlleniadau graenus eto eleni. Cafodd pob plentyn docyn ac anrheg ar y diwedd. Casglwyd £50 at Ambiwlans Awyr Cymru.

CAPEL Y CYSEGR

**Gwasanaeth y Plant.** Y plant oedd yng ngofal y gwasanaeth cyn y Nadolig a chafwyd cyflwyniad graenus iawn gan 30 ohonynt. Cymerwyd rhannau agoriadol gan yr athrawon, yn darllen darnau perthnasol o'r ysgrythur ac yn cyflwyno carolau a gweddi. Yna bu i'r holl blant ganu 'Clywch y clychau clir yn canu'. Thema'r gwasanaeth oedd 'Pasio'r parsel' ac wrth basio'r parsel o un plentyn i'r llall daeth anrheg i'r golwg bob tro. Ffurflen Cyfrifiad oedd yr anrheg cyntaf, ac yna yn dilyn, Angel, Seren, Gwellt y stabl, babi, ac i ddiweddu, Croes. Roedd pob dosbarth yn llefaru i gyd fynd â'r anrheg oedd wedi ei dynnu allan o'r bocs. Cafwyd yr orymdaith arferol o amgylch y Capel gan Mair a Joseff, dwy angel, un Bugail ac un Brenin, a diweddwyd y cyflwyniad wrth i'r plant gyd-ganu 'Croeso i'r Iesu'. Diolchodd Geraint Elis i Rita a Manon am baratoi'r cyflwyniad, i Edwina am addurno'r Capel, i'r plant am ddysgu'r gwaith ac i athrawon a rhieni am bob cefnogaeth.

Braf oedd gweld y Capel yn gyfforddus lawn a sylweddoli bod yr hen hen neges yn dal i apelio at yr hen a'r ifanc. Roedd yno awyrgylch gynnes.

Yn syth ar ôl y Gwasanaeth aeth y plant i gyd i'r Festri i fwynhau eu parti. Digon o ddanteithion blasus i bawb. Ac yna yn sydyn ymddangosodd Santa a'i sach a rhannu presant i bob plentyn.

Dymuna'r Athrawon ddiolch o galon i lawer o'r rhieni a chyfeillion a gyfrannodd i lwyddiant yr arbrawf hwn eleni.

**Gwasanaeth Cymun Bore Dolig.** Braf oedd cael croesawu cynulleidfa niferus unwaith eto ar fore'r Nadolig yn cydaddoli yng nghwmni'r Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Cyfoethogwyd y gwasanaeth gyda grŵp o offerynwyr pres, pob un a chysylltiad â'r capel, yn chwarae fel yr oedd y gynulleidfa yn cyrraedd, ac yn cyfeilio i'r carolau. Roedd hwn yn ychwanegiad arbennig iawn at naws yr achlysur. Cafwyd myfyrdod pwrpasol yn sôn am y tair 'C', sef cardiau, cost, cinio; ac yna tair 'C' arall yn cyfeirio at Crist, cyfeillgarwch, Croes, cyn troi at fwrdd y Cymun lle bu dros 70 yn cymuno.





LLONGYFARCHIADAU i Iwan Morris, o Dreflys, Bethel, ar ei lwyddiant wrth gymhwyso i ddreifio Fforch Godi ar safle Antur Waunfawr yng Nghaergylchu yn Stad Cibyn, Caernarfon. Dechreuodd Iwan weithio i Antur Waunfawr yn Ebrill 2008 ac ers hynny mae wedi bod yn gweithio yn yr Adran Ailgylchu Papur. Bydd yn derbyn hyfforddiant ychwanegol yn fuan i weithio gyda'r Adran Ailgylchu Plastigion hefyd.

MERCHED Y WAWR. Yn anffodus, oherwydd y tywydd canslwyd cyfarfod mis Ionawr. Os oes rhywun â diddordeb yn mynychu Cinio'r Llywydd Cenedlaethol neu Gŵyl y Pum Rhanbarth mae gan yr Ysgrifennydd fanylion am y ddau ddigwyddiad. Gofynnir yn garedig i bawb sydd am ddod i'r Swper Gŵyl Ddewi ddod â £15 i'r cyfarfod nesaf a hynny yng nghwmni yr arlunydd, Frank Green, Pontrug.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth nifer dda o aelodau i gyfarfod mis Ionawr a thema'r noson oedd 'Mae gen i drysor'. Roedd y noson dan ofal Ieuan Williams ac roedd wedi gofyn i bump o'r aelodau cyflwyno eu 'trysorau'. Y cyntaf i siarad am ei drysor oedd Jenkin Griffiths ac roedd wedi dod gydag ef llun dyfrlliw o'i ardal enedigol, sef Penuwch, a gyflwynwyd iddo gan Staff Llyfrgell Gwynedd ar ei ymddeoliad. Daeth Rita Williams â Beibl oedd yn perthyn i Gapel Moriah Dolwyddelan, a oedd yn wreiddiol yn eiddo i Nanws Roberts. Yna cyflwynodd Richard Lloyd Jones feirniadeth a dderbyniodd gan Dr.John Gwilym Jones yn dilyn ennill ar delyneg yn Eisteddfod Y Groeslon. Hel atgofion a wnaeth Myra Griffith am ei phlentyndod yn Nantmor a'r trysor oedd ganddi hi oedd darlun yn ei chof o'r cyfnod. Trysor Robin Jones, yr olaf i siarad, oedd cloc pen-tân a gyflwynwyd i'w rieni fel anrheg priodas, a'r holl atgofion oedd ynghlwm â'r cloc.

Diolchwyd yn gelfydd iawn am noson ddiddorol gan Geraint Elis. Y siaradwraig y tro nesaf fydd Meinir P. Jones.

DAEARGRYN HAITI. Bu nifer o gapeli, cymdeithasau ac unigolion yr ardal yn cynnal gweithgareddau i gefnogi Ymgyrch Haiti. Ni allwn, o bell, ddirnad y fath sefyllfa. Penderfynodd staff, staff y gegin a phlant ysgol Bethel drefnu brecwast i godi arian. Daeth nifer o bentrefwyr a charedigion yr ysgol draw i gefnogi. Cafwyd ymateb dda, a chyfrannu'n hael. Ar ddiwedd y ddwy awr llwyddwyd i godi £1,000 ar gyfer yr apêl. Diolch i bawb a gyfranogodd mewn unrhyw ffordd.


BYSUS RHIWLAS



Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
9 a.m.–3 p.m. (Sul)

Cewch groeso cynnes gan CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, ysgrifiant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Anabl ar 22 Ionawr; cwrs celf a chrefft yn y Bala ar 23 Ionawr; caffi Eisteddfod yr Urdd ar 27 Chwefror; y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Fic, Llithfaen ar 9 Mawrth, a chinio'r Llywydd Cenedlaethol yn yr Wyddgrug ar 24 Ebrill. Penderfynwyd bod y gangen yn gofyn am ganiatad i blannu coeden yn Llanrug yn unol â chynllun Coed Cymru.
Gwestai'r noson oedd Elfyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Seren Arian. Adroddodd Elfyn hanes y cwmni, a fu'n rhan annatod o'r gymdeithas, o'i ddechreuad yn 1918: ei dad yn prynu'r cwmni yn 1941, y gystadleuaeth gyda chwmni Express Motors, y troeon trwstan, y cydweithio â chwmni Purple Motors ac yna Elfyn yn cymryd drosodd yn y 90au.
Gellir dweud bod Elfyn wedi ei eni yn *entrepreneur*. Pan oedd ond yn 7 oed codai dâl ar blant pentref Cesarea am gael reid ar boni a enillodd yn Sioe Môn. Ymhen pedair blynedd roedd y poni yn wael ac fe'i gwerthwyd mewn ocsiwn a defnyddiodd Elfyn yr arian i brynu defaid. Bu'n bridio defaid am rai blynyddoedd wedyn gan werthu'r ŵyn. Roedd ei fusnes defaid wedi gwneud yn ddigon da iddo fedru ei werthu a phrynu car mini pan aeth yn fyfyriwr i Goleg Llandrillo. Roedd yn ei elfen yn y fan honno ac yn defnyddio'i gar i gario myfyrwyr (am dâl, wrth reswm) yn ôl a blaen i'r coleg. Pan oedd yn fyfyriwr yng ngholeg Politechnig Manceinion arferai weithio ar gyda'r nosau mewn gwestai ayyb, a defnyddiai'r arian i fynychu darlithoedd gan ddynion busnes blaenllaw yn Ysgol Fusnes Manceinion lle dysgodd mai'r ffordd i lwyddo bob amser yw cyfarfod ag anghenion y cwsmer.
Dyna fu sail llwyddiant Elfyn gan iddo edrych ar yr hyn oedd cwsmeriaid ei angen a'i chwenychu: math o ystafell mewn gwesty, darpariaeth ar gyfer yr henoed. Agorodd siop yng Nghaernarfon er mwyn dod â'r busnes yn nes at y cwsmer a hybu gwerthiant, diddordebau, cwsmeriaid megis cyngherddau, golff, rasus motor beics, agor siop ychwanegol yn Wrecsam, galluogi pobl i ymuno â gwyliau heb orfod teithio ar y bws, dyfeisio gwyliau gwahanol, e.e. Taith yn olrhain hanes y Cymry yn Llundain, defnyddio e-bost ac archebu ar lein.
Erbyn hyn mae pobl o bedwar ban byd yn defnyddio Cwmni'r Seren Arian ar gyfer eu gwyliau ac mae'r busnes yn mynd o nerth i nerth. Does dim rhyfedd bod Elfyn wedi ennill gwobr menter a Busnes yn 2009, wedi ennill gwobr Trefnydd Teithiau Bysiau yn 2008 ac hefyd yn 2008, oherwydd ei gyfraniad yn trefnu teithiau i'r Eisteddfod Genedlaethol, wedi ei urddo i wisg werdd Gorsedd y Beirdd. Roedd Elfyn yn deall i'r dim sut i blesio ei gynulleidfa a mwynhaodd pawb bob eiliad o'i gyflwyniad difyr a ffraeth.
Paratowyd y baned gan Meirwen, Mair a Mary ac enillwyd y raffl gan Mary.
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Chwefror a'r wraig wadd fydd Wendy Thomas, enillydd cystadleuaeth Casa Dudley 2008.

## CAPEL Y RHOS

**Nadolig Capel y Rhos**
Cyflwynodd aelodau'r Ysgol Sul eu gwasanaeth Nadolig ar Ragfyr 21ain. Stori enwog o Rwsia oedd ganddynt, sef Babwshka a'r Tri Gŵr Doeth. Diolch i bawb oedd yn cymryd rhan ac i'r athrawon am eu hyfforddi.
Yn dilyn y perfformiad mwynhaodd y plant eu parti Nadolig a mawr ddiolch i bawb a gyfrannodd at y parti hwn.
I ddathlu Bore'r Nadolig, yn ôl yr arfer bellach, daeth nifer dda ynghyd. Cafodd y plant gyfle i ddangos un anrheg a ddaeth gan Siôn Corn. Dan arweiniad ein gweinidog, cafwyd gwasanaeth byr ond bendithiol iawn.
Drannoeth Gŵyl San Steffan, cynhaliodd yr aelodau Gyfarfod Gweddi a drefnwyd gan Mr. Len Brookes, llywydd y mis. Diolch i bawb fu mor barod i gynnig eu gwasanaeth.

**Oedfaon mis Chwefror**
Chwefror 7: Y Gweinidog
Chwefror 14: Y Parch. Trefor Jones (dim Ysgol Sul)
Chwefror 21: Y Gweinidog (dim Ysgol Sul)
Chwefror 28: Mr. Aled Ifan


CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979
620996
• Trwsio ceir a faniau
• Gwaith MOT
• Mecanic profiadol iawn
• Prisiau cystadleuol


# CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 15fed o Ragfyr 2009, penderfynwyd:

- Roddi caniatâd i'r pensaer gael prisiau am y cynllun ar gyfer Parc Chwarae yng Nghwmyglo cyn cynnal cyfarfod cyhoeddus i'w drafod.
- Ail asesu'r broblem o ddŵr yn casglu ym mhen draw Cae Chwarae Pwll Moelyn ar ôl i'r safle sychu.
- Doedd dim gwrthwynebiad gan y Cyngor i gais cynllunio am estyniad deulawr yn Tyddyn Rhyddid, Llanrug.
- Cefnogi cais i brynu tir er mwyn creu man parcio i gwsmeriaid tu ôl i Elaine's.
- Rhoddi grant o £650 i Eco'r Wyddfa.
- Gofyn i'r Cyngor Gwynedd ystyried gwella cyflwr y ffordd o flaen Tyddyn Rhyddid.
- Peidio a chyfrannu i Gronfa RH Owen eleni ond i ail ystyried yn y dyfodol os byddai'r nifer sy'n derbyn grant o'r gymuned hon yn codi.


# Pêl-droed anabledd ar gael yng Ngwynedd

Mae menter pêl-droed anabledd newydd sbon yn cael ei gynnig yng Ngwynedd a fydd yn rhoi cyfle i rheiny sy'n 16 a throsodd i finiogi eu sgiliau pêl-droed yn ogystal â helpu i gadw at adduned blwyddyn newydd i golli pwys neu ddau.
Mae cyfres o sesiynau hyfforddi pêl-droed yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Hamdden Arfon yng Nghaernarfon ac yn agored i bobl 16 a throsodd. Mae'r sesiynau pêl-droed cael eu cynnal o 11am tan hanner dydd. Mae pob sesiwn yn costio £2.60. I gofrestru, cysylltwch â Jane Eade o Gyngor Gwynedd ar 01758 704010. neu e-bost: marcuspolitis@gwynedd.gov.uk
Mae'r sesiynau pêl-droed anabledd a fydd yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Hamdden Arfon yng Nghaernarfon yn cael eu cefnogi gan Gyngor Gwynedd, Chwaraeon Anabledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru.


H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

BAND LLANRUG. Cafodd Cyngerdd Nadolig Blynyddol Band Llanrug ei gynnal yn Ysgol Gynradd, Llanrug ar Nos Iau 17 Rhagfyr.

Roedd yn noson 20 lwyddiannus iawn gyda'r neuadd yn llawn o ffrindiau, teulu a phobl leol. Yn ystod y noson cyflwynodd Cynghorydd Charles Wyn Jones ddwy wobr i aelodau'r band.

Y gyntaf, sef 'Gwobr er cof am Terry Lloyd Jones', ar gyfer aelod ifanc sydd wedi cyfrannu i'r band trwy fynychu'n rheolaidd ac wedi gwella yn gerddorol. Aeth y wobr eleni i'r chwaraewr Bariton 1af (1st Baritone): Dyfrig Owen.

Roedd yr ail wobr ar gyfer 'Aelod Band y Flwyddyn'. Gwobr newydd yw hon, wedi ei noddi gan y Cyfarwyddwr Cerdd, Mr Paul Hughes. Eleni cafodd ei rhoi i Collette Williams. Mae'r wobr yn cael ei rhoi mewn cydnabyddiaeth o'r gwaith caled mae Collette wedi ei wneud, mae'n diwtor i'r band ieuengaf, yn cynorthwyo gyda'r Band Ieuenctid yn ogystal â chwarae Prif Horn (Principal Horn) yn y Band hyn.

Mae'r Band nawr yn edrych ymlaen at agoriad swyddogol y 'cwt band' newydd yn y flwyddyn newydd pan fydd yr holl waith wedi ei gwblhau

LLONGYFARCHIADAU calonnog i Dr. Delyth Tomos, Tan y Cae, Tan y Coed, Llanrug, ar ennill ei doethuriaeth Ed.D. gyda'r Brifysgol Agored yn ddiweddar.

PLAID CYMRU. Bydd yn noson arbennig yng Ngwesty Seiont Manor nos Fercher, 17 Chwefror! Dowch yno i gyfarfod yr Aelod Seneddol, Hywel Williams. I gael rhagor o fanylion ffoniwch Llinos Davies ar 674478.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Cemlyn a Gwenan ar enedigaeth eu merch fach, Elliw Pyrs, ar 8 Rhagfyr. Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain, Doug ac Avril, Stad Minffordd a Geraint ac Ann Elis, Bethel.

PROFEDIGAETHAU. Yn sydyn iawn bu farw Ernest Jacques, 54 Glanffynnon, yn 61 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at y teulu: ei wraig Rhian, Sioned ac Aled a'r wyres fach, Elenid. Hefyd at ei frawd, Cyril, Maureen a'r teulu.

Hefyd bu farw Mrs Margaret McNall, Penllel, Ffordd yr Orsaf, gwraig annwyl David Edwin, a mam hoffus David, Susan a'i theulu. Anfonwn ein cofion arbennig at Mr McNall, sydd ei hunan yn wael yng Nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd.

Bu i Jackie Hughes, Rhes Crawia, golli ei mam ym Mrynsiencyn yn ddiweddar. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant atoch chithau ac at Dylan, Catrin a Gerallt

Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Barbara Thomas, Y Glyn, Pontrug, ynghyd ag Eifion, Gwyn ac Arwel a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, Mrs H. McKay, Cricieth.

BRYSIWCH WELLA. Cofion gorau at Mrs Eurwen Williams, Bryn Gro, Ffordd Glanffynnon, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mair Jones, 8 Hafan Elan, Llanrug, ddiolch i'w chymdogion, ffrindiau a'r teulu i gyd am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Cafodd barti bach gyda'r teulu a ffrindiau a mwynhau y cyfan yn arw. Llongyfarchiadau mawr i chi.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 12 Ionawr. Dymunodd Margaret, y Llywydd, Flwyddyn Newydd Dda i bawb ynghyd ag anfon cofion at Eileen sy'n gwella ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Avril a Doug ar ddod yn Nain a Thaid i Elliw Pyrs a diolchodd i'r aelodau fu'n cymryd rhan yn y Cwis Hwylo. Cyhoeddwyd y digwydd-iadau canlynol: distawrwydd noddedig gan yr Is-bwyllgor

## LLONGYFARCHIADAU



*Dyfrig Owen yn derbyn Gwobr Goffa Terry Lloyd Jones gan y Cynghorydd Charles Jones*



*Mr. Paul Hughes, noddwr 'Aelod Band y Flwyddyn' sef Collette Williams*

## Ffrind

'Beth wyt yn feddwl o'r patrwm yma? Gorgimwch Cymreig, cawiais y patrwm yma o ddarn o garped grisiau, top plastig potel lefrith a thraed iddo o frwsh llawr, mae yn garantîd o ddal samons mawr. Mi wnaf gopi ohoni i ti, fydd o ddim trafferth.'

Ia un felly oedd Ernie Jacques, parod ei gymwynas ac yn ffeind iawn ei natur, cefais lawer iawn o hwyl a phleser yn ei gwmni wrth bysgota y Seiont. Atgofion hapus iawn fydd gennyf amdanat, Ernie.

Dy gyfaill Gwynfor, Bethel








Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyr

# CYFARCHION O VANCOUVER



*Aled ar un o bontydd Port Mann Highway*

Ar ôl bod yn gweithio fel Peiriannydd Sifil gyda Mott MacDonald yn Birmingham, Caerfyrddin ac yna Caerdydd, daeth cynnig i mi gael gweithio ymhellach i ffwrdd – a dyma fi'n symud allan i Vancouver, Canada gyda Hatch Mott MacDonald. Rwyf wedi bod yma rŵan ers ychydig dros flwyddyn ac wedi cyfarfod a thipyn o bobl sydd wedi symud yma o wahanol wledydd y Byd.

Roeddwn yn ddigon ffodus i gael y cynnig i weithio dramor, a dyma dderbyn swydd yma yn cynllunio ac adeiladu Priffordd newydd ger Vancouver – gwneud gwelliant i'r Trans Canadian Highway, sydd yn golygu o gwmpas 50 o bontydd, cannoedd o waliau a tua 30 milltir o ffordd newydd. Mae'r gwaith yn brysur ac, wrth gwrs, pethau yn symud yn gyflym iawn o ddydd i ddydd, ac ar hyn o bryd mae'r Contractwyr yn brysur allan ar y safle yn adeiladu. Rwyf mewn tîm o ryw 200 o beirianwyr sifil sydd yn gweithio ar gynllun y 'Port Mann Highway 1', ac mae'n costio Llywodraeth British Columbia yn agos i 3.5Bn CAD $. Fy swydd i yw goruchwylio cynllunio 6 pont a rhyw ddwsin o waliau. Rwy'n hefyd yn helpu eraill fel cydlynydd rhwng y gwahanol dimau, sef structures, highways, drainage, geotechnical…ayyb

Rwyf wedi cyfarfod â 'chydig o bobl sydd â chysylltiadau â Chymru – un o Harlech, un o Fangor ac un arall o Llanfair PG – a fynta wedi bod yn gweithio gyda Robin Warrington (ffrind i mi ers dyddiau Ysgol Bethel) pan roedd yn Nghymru – roeddwn yn methu credu! Mae'r byd yn fach iawn. Rhai eraill wedyn gyda chysylltiadau â Port Talbot a Chaerfyrddin. Fe ddaeth ffrindiau o Gaerfyrddin allan yma am wyliau ym mis Tachwedd - y tri ohonynt wedi mwynhau yn fawr iawn.

Rwyf wedi bod yn eira-fyrddio nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac hefyd wedi bod yn cerdded y mynyddoedd. Roeddwn yn un o 40,000 o bobl a gymerodd ran yn y Vancouver Sun Run ym mis Ebrill, rwyf wedi trio 'Curling', ac wedi bod yn ffodus iawn i weld ychydig o gêmau Ice Hockey, sef gêm genedlaethol Canada. Mewn llai na mis fe fydd yr Olympics yma, ac yna bydd digon o ddiddordeb dros y byd ar Vancouver, Whistler a Chanada ei hun, wrth gwrs. Rwyf wedi cael ychydig o docynnau i rai o'r digwyddiadau, felly rwy'n edrych ymlaen at y bwrlwm fydd o gwmpas y ddinas.

Dros y Nadolig fe gefais gynnig i dreulio amser gyda theulu o Comox, tref fechan ar Vancouver Island. Roeddwn wedi bod atynt unwaith o'r blaen yn ystod yr haf. Teulu cerddorol iawn - y ffidil a'r piano yn cael eu chwarae yn aml, a hynny yn dwyn atgofion o fod adref gyda'r holl gerddoriaeth ac ati yn Llwyn Eithin! Mae gan y teulu gysylltiad â Chymru hefyd, gan fod Hen Daid fy ffrind, Destry, yn dod o dde Gymru.

Am y flwyddyn yma bydd yr Olympics gyda ni yn fuan iawn, ac yna gobeithio bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen yn ddiffwdan. Tydi'r adeiladu ddim i fod i orffen tan y flwyddyn 2013 – felly digon i'w wneud eto. Gobeithio!

ALED GRIFFITHS
(gynt o Fethel)

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

DRA O'R YSBYTY. Am gyfnod cyn y Nadolig bu Elwyn Hughes, Erw Wen yn yr ysbyty. Roedd yn braf ei weld adref cyn y Nadolig.

Ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn gynnar yn y flwyddyn newydd mae'n braf gweld Richard Myrddin Roberts, Bryn y Gof, o amgylch ypentref unwaith eto.

EISTEDDOFD YR URDD ERYRI. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yng nghanolfan y Capel am 7.30 yr hwyr nos Iau, 11 Chwefror. Bydd cynrychiolydd o Urdd Gobaith Cymru yn bresennol er mwyn sefydlu pwyllgor codi arian i Eisteddfod yr Urdd Eryri yn 2012.

BABIS NEWYDD. Croeso mawr i Rosy Morris, a anwyd ddechrau mis Rhagfyr. Hi yw plentyn ieuengaf John a Niki Morris, Tai Bryn y Gof. Rosy oedd y plentyn ieuengaf yn y Parti Plant!

Hefyd llongyfarchiadau i 'blant y fro', sef Nia Hughes, Glanrafon gynt, ar enedigaeth mab, ac i Aron Evans, Llecyn Clyd gynt, ar enedigaeth merch.

CYDYMDEIMLWN â Vera Roberts, Monfa, ar farwolaeth ei mam ddechrau mis Ionawr.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Ionawr oedd: £40: (58) Sandra Roberts, 5 Bryn y Gof; £25: (50) Tony ac Erian, Annedd; £15: (92) Vernon Jones, Llain Meddygon; £5: (46) Aled Jones, 9 Tai Glangwna.

Diolch i'r cefnogwyr ffyddlon, yn arbennig yr aelwydydd gyda mwy na un hapchwaraewr ynddi, mae'r Pwyllgor wedi medru talu am yr holl weithgaredd dros yr Wyl.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn y Ganolfan, Y Waunfawr ar 11 Ionawr. Penderfynwyd cefnogi cadw ffin Ward Waunfawr Cyngor Gwynedd, sef Caeathro, Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd-ddu, fel ag y mae yn ystod yr adolygiad cyfredol o'r ffiniau.

Unwaith eto mae Cyngor Gwynedd wedi addo gwaith er mwyn datrys y llifogydd ger Tyddyn Whisgyn. Cytunwyd geiriad holiadur cymunedol ynglŷn â dyfodol tir 'Gerddi Bach' yn y Waunfawr.

Adroddwyd bod caniatâd cynllunio wedi'i gytuno ar gyfer cyntedd o flaen 3/4 Tai Brynteg. Fodd bynnag, roedd y ceisiadau ar gyfer tai rhwng Caeathro Bach a Hen Gapel, a'r estyniad i Garej Gwalia, yn parhau i gael eu hystyried cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio.

Roedd y Cyngor yn unfrydol o blaid ysgrifennu i ddiolch i weithlu priffyrdd Cyngor Gwynedd am eu hymdrechion i gadw'r priffyrdd yn agored yn ystod y tywydd gaeafol.

'GEORGIAN GLORY'. Dyna oedd pennawd tudalen flaen atodiad cartrefi'r Western Mail ar ddydd Sadwrn, 16 Ionawr. Y pwnc oedd Castellmai, y plasty sy'n edrych dros y Fenai rhwng Caeathro a'r Bontnewydd. Yn anaml iawn mae'r papur yn cynnwys cartrefi drud y tu allan i dde-ddwyrain Cymru!

**Eisteddfod Gadeiriol y Bontnewydd**

CANOLFAN Y BONTNEWYDD
**nos Iau a nos Wener y Groglith**

**Ebrill 1af a'r 2il, 2010**

Tâl mynediad: £2.00
Pensiynwyr: £1.50; Plant: 50c


**Caffi Caban**

ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

**Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail**
**www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org**
**01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)**



**Am gymorth:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE, Llanberis**
**Ffôn: (01286) 870202**
TREFNWYR ANGLADDAU

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

**Croeso.** Croesawn Mr Gareth Williams fel athro llanw i ddosbarth Bl 3 a 4 am gyfnod, yn ystod absenoldeb mamolaeth Mrs Sharon Ray. Yn yr un modd rydym yn anfon ein dymuniadau gorau i Mrs Ray yn ystod yr amser yma.

**Myfyriwr.** Croeso i Mr Jonathan Davies fydd yn treulio 6 wythnos ar brofiad dysgu o Brifysgol Bangor yn nosbarth Bl 5 a 6.

**Sioe Nadolig 2009.**
Perfformiwyd Sioe lwyddiannus iawn brynhawn a nos Fawrth, 15 Rhagfyr. Diolch i'r plant am berfformiad gwych ac i'r holl Staff am eu brwdfrydedd. Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb a ddaeth i gefnogi yn y pnawn a'r gyda'r nos.

**Cydymdeimlo.** Rydym fel ysgol yn cydymdeimlo ag Anti Liz a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn o golli Mam a Nain annwyl.

COLLED AR DROTHWY'R NADOLIG. Cydymdeimlir yn ddwfn iawn â Liz ac Eric a'r teulu yn eu colled fawr ym marwolaeth sydyn a thawel Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, yn 83 mlwydd oed – mam amhrisiadwy i Liz a'i phriod Eric, nain ddylanwadol ar Dyfed, Sioned ac Aled a hen nain falch i Beca, Twm ac Efan Jac. Fe'i rhoddwyd i orffwys gyda'i diweddar wr ym mynwent Brynaerau, Pontllyfni.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Rhagfyr oedd Miss Elinor Jones, Bron y Waun gyda'r rhif 30. Llongyfarchiadau. Diolch i bawb am gefnogi cronfa'r Pensiynwyr trwy brynu pêl bonws bob mis. Byddwn yn parhau i'w redeg eto eleni ac mae ychydig o rifau sbâr. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb, cysylltwch â Liz ar 872421.

DIOLCH. Dymuna Sioned a Tirion ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Efan Jac.

DYMUNA Liz, Eric a'r teulu ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Hen Nain annwyl iawn. Gyda diolch arbennig i Nan, Jean a Susie, a Chwmni Gofal Caredig am bob cymorth i ofalu amdani yn ystod y ddwy flynedd olaf. Diolch i'r Parch Marcus Robinson am ei wasanaeth ddydd yr angladd, i Mrs Ann Ifans wrth yr organ ac i Mr a Mrs Dylan Griffiths, Tros y Waen am eu trefniadau gofalus a thrylwyr iawn. Trosglwyddwyd £550 er cof am Gwyneth i Gronfa Alzheimer Cangen Gogledd Cymru. Diolch o galon.

GWELLHAD. Anfonir ein dymuniadau gorau i Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, ar ôl iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty cyn y Nadolig.

Ein cofion anwylaf hefyd at Nansi, Meillionydd, wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd a'r gofal wedyn yn Ysbyty Eryri. Rydym yn holi'n gyson amdanoch.

I bawb arall sydd wedi bod yn sâl yn ystod y tywydd garw yma dymunir iachâd buan i bob un ohonoch.

LLONGYFERCHIR Dilwyn Green ar ei lwyddiannau di-ri yn Sioe 'National Federation of Poultry', Stafford. Enillodd darian aur am yr aderyn 'Silkie' gorau. Dyma'r tro cyntaf i Gymro ei hennill ers 1962. Cafodd bedair gwobr gyntaf hefyd. Bydd Dilwyn ac aelodau o Glwb Gwynedd yn mynd i'r Alban i gystadlu nesaf pryd y bydd o gwmpas 650 o adar amrywiol yn cael eu harddangos. Bydd John Arwel Hughes o Lanberis ac Euron Williams yn mynd yno hefyd. Pob lwc iddynt.

SEIBIANT. Balch oeddem o weld Ceirion Williams, Carreb, adref am seibiant o Cambasra, Afghanistan, dros y flwyddyn newydd. Prysured yr amser iddo ddychwelyd adref ym mis Ebrill wedi ei deyrngarwch a'i ymroddiad gyda'r Royal Artillery.

PWYLLGOR NEUADD. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol nos Lun, 18 Ionawr yn yr Ystafell Gymuned. Adroddwyd cofnodion y flwyddyn 2009 ac fe'u cafwyd yn gywir. Cyfetholwyd Marinas ar y pwyllgor. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd: Michael Jones, Perthi a Phyllis Elis, Rhosfair.

Atgoffir pawb ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth am y flwyddyn 2010.

CYFARFOD APEL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012. Llywiwyd y cyfarfod gan Richard Morris Jones a Meriel Parry. Targed Cyfansawdd Eisteddfod Eryri yw £350,000 ac felly disgwylir i Benisarwaun a Brynrefail godi o gwmpas £5,000 yn y ddwy flynedd nesaf. Golyga hyn o gwmpas £5 y pen. Bu'r dasg o sefydlu'r pwyllgor apêl yn hynod o rwydd a diolchir i'r nifer dda a ddangosodd ddiddordeb. Roedd pawb yn fodlon iawn i fod yn aelodau o'r pwyllgor. Cynhelir y pwyllgor cyntaf nos Lun, 8 Chwefror am 7.30 yn yr Ystafell Gymuned.

Pwysleisir bod croeso mawr i rai na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod apêl ymuno yn y pwyllgor cyntaf yma. Bydd angen nifer dda o wirfoddolwyr i godi'r swm a nodwyd. Dowch i gefnogi'r Mudiad Ieuenctid hollbwysig yma.

YSGOL SUL BOSRA. Wedi'r eira a'r rhew roedd hi'n braf croesawu'r aelodau yn ôl i'r Ysgol Sul. Gobeithio y ceir tymor byrlymus a hapus yn yr wythnosau nesaf. Cofier bod croeso twymgalon i aelodau newydd ymuno â ni am 10.00 o'r gloch bob bore Sul.


R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846





**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa yna ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad neu ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
williamshw@parliament.uk





**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatre digwyddiadau




Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 · Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonia.co.uk · Gwefan: www.arvonia.co.uk

# CHWILOTA



Gorau tewi, medd yr hen air, felly wna'i ddim ceisio olrhain hanes gaeafau caled y fro. Gwell tewi!

**Gwell Hwyr na Hwyrach...**

Fedrwch chi gofio'n ôl i fis Tachwedd 1997? Yn y rhifyn hwnnw roedd erthygl fer ar hanes Thomas Roberts – 'O Gwm y Glo i Awstralia'. Mae John Alan Roberts, Penygroes (Llanberis gynt) wrthi'n brysur yn hel ei achau, ac wedi darganfod fod ganddo gysylltiad â'r Thomas Roberts hwn.

Thomas oedd yr hynaf o bump o blant i John a Mary Roberts, Tan y Marian a Bryn Difyr, Cwm y Glo. Roedd y rhieni wedi mudo i'r America, ac yno yn nhalaith Pennsylvania ym mis Ionawr 1875 y ganwyd Thomas. Ond dychwelodd y teulu i Gymru, ac yng Nghwm y Glo y ganwyd y gweddill o'r plant, sef Richard a John (efeilliaid), Robert ac Ellen Mary. Erbyn 1891 roedd Thomas yn brentis chwarelwr, ond mae'n amlwg fod crwydro yn ei waed, ac erbyn 1904 roedd yn deithiwr ar long y 'Medic', yn hwylio o Lerpwl am Sydney, Awstralia. Bu'n byw a gweithio fel mwyngloddiwr aur yn Charters Towers rhwng 1905 a 1920. Yn y flwyddyn honno, bu farw o'r diciau, ac fe'i claddwyd ym mynwent Charters Towers.

Treuliodd felly gyfran o'i oes ar dri chyfandir: America, Cymru ac Awstralia.

Tra ar ymweliad ac Awstralia, bu Miriam, merch John Alan Roberts, yn chwilio am fedd Thomas Roberts, ond yn aflwyddiannus. Roedd yr arysgrifau ar y beddau wedi dirywio, y fynwent yn dyfiant gwyllt, a nadroedd gwenwynig yn bla yno!

Aeth brawd ieuengaf Thomas, sef Robert i weithio yn y pyllau glo yn ne Cymru, ac oddi yno i'w hyfforddi i'r weinidogaeth. Bu'n weinidog yn y Rhondda, Glyncorrwg a Blaengarw.


Buasai John Alan yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth bellach am Thomas Roberts.

**Cwmni Drama Sardis**

Yn yr *Herald Cymraeg* yn ystod 1925 ceir adroddiad am berfformio drama 'Arthur Wyn yr Hafod' gan Gwmni Drama Sardis ac ochr yr Elidir. Dyna i chi enw bendigedig ar gwmni drama! Ond pwy tybed oedd cyfarwyddwr ac aelodau'r cwmni? Mae'n amlwg ei fod wedi ei enwi ar ôl Capel Sardis, ond mae'r ffaith fod 'ochr yr Elidir' wedi ei ychwanegu at yr enw yn awgrymu nad aelodau o'r capel hwnnw oedd pob un o'r actorion. Oes mwy o wybodaeth ar gael? A beth am luniau o'r cwmni?

**Cymdeithas Lenyddol Dinorwig**

O fewn y mis bydd yn amser dathlu gŵyl ein nawddsant. Mae'r llun gyferbyn yn dangos blaen-ddalen rhaglen dathlu Cymdeithas Lenyddol Dinorwig yn 1956. Y foneddiges wadd oedd y ddiweddar Miss Catherine Evans, cyn-bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Brynrefail, yn rhoi sgwrs ar y testun 'Anfarwol Goffadwriaeth Dewi Sant'. Er nad oes lleoliad wedi ei nodi ar y rhaglen, mae'n bur debyg mai yn festri Capel Dinorwig y cynhaliwyd y wledd. Oddi mewn ceir rhestr o'r bwydydd oedd ar gael y noson honno, sef Enllyn (yn cynnwys tafod ych a ham, llysiau gleision, betys, cyffeithiau, bara gwyn a bara brith), Melysion (sef Treiffl, Hufen a Chacennau) a Gwlybyrion, 'trwy big y tebot' yn unig! Ar wahân i'r sgwrs gan y wraig wadd, roedd pymtheg eitem arall ar y rhaglen, yn adroddiadau, partion canu ac eitemau ar y delyn a chanu gyda'r tannau.



Cymdeithas Lenyddol Dinorwig

(M.C.)

SWPER A CHYFARFOD

DATHLU GWYL DEWI

*Boneddiges Wâdd :*

Miss CATHERINE EVANS, M.A.,

Caernarfon.

Dyna gofnodi dau gyfnod gwahanol yn Ninorwig, a'r diwylliant Cymraeg a Chymreig yn ei anterth yno. O fewn ychydig flynyddoedd i gynnal y Swper Dathlu, byddai'r chwarel wedi cau a theuluoedd wedi gwasgaru i rannau eraill o'r wlad i chwilio am waith. Diwedd cyfnod mewn un rhan o'n hardal o bosibl.

**Ceffylau wrth eu gwaith**

Am ba hyd tybed y parhaodd yr arfer o ddefnyddio ceffylau i wahanol orchwylion yn y fro? Nid sôn am geffylau'n gweithio ar ffermydd yn unig a wnaf, ond gyda gwaith arall hefyd, megis yn y chwareli llechi. Yn *Y Genedl Gymreig* ym mis Mawrth 1900 ceir adroddiad am geffyl, eiddo John Owen, Llys Helen, Clegir, yn disgyn dros bont yn Chwarel Cook a'r Ddôl, tra wrth ei waith. Disgynnodd ddyfnder o tua ugain llath a 'chafodd ei falurio yn ddychrynllyd yn y godwm.' Sawl cofnod sydd ar gael yn profi fod ceffylau yn gweithio ym mân chwareli'r ardal?

**Chwilio am Dr Fox**

Er gwaethaf sawl galwad ffôn yn nodi'n bendant y flwyddyn y llosgwyd merch fach Dr Fox ym Mryn Gwyddfan, Llanberis, rwy'n parhau i chwilio am union ddyddiad y digwyddiad. Yn ôl un alwad, 1942 oedd y flwyddyn, ond er chwilio drwy holl ôl-rifynnau'r *Caernarfon and Denbigh Herald*, doedd dim sôn am y ddamwain.

Ychydig cyn i'r *Eco* fynd i'r wasg, daeth galwad a llythyr yn dilyn gan Margaret Roberts, Caernarfon, oedd yn cofio Dr Fox yn gweithio gyda Dr Douglas Jones. Roedd hi'n credu i Dr Fox ddod yno yn dilyn ymddeoliad Dr Roberts (tad Dr Noel Roberts, Caernarfon), a chyn i Dr Vyrnwy Jones ddechrau yno. Mae hefyd yn cofio ei bod yn ffrindiau ifanc iawn â Sheila, y chwaer hynaf a achubwyd o'r tân. Awgrymodd ddyddiad o gwmpas 1947. Rwyf eisoes wedi chwilio trwy'r papurau newydd am 1946 a 1947 – ond dim sôn am y drychineb. Mae Margaret yn nodi gyda sicrwydd fod y teulu wedi symud o Lanberis erbyn 1950 i ogledd Lloegr.

Does dim amdani ond dal i chwilio trwy rifynnau'r papurau lleol tan y flwyddyn honno. Efallai y daw'r hanes i'r golwg erbyn y rhifyn nesaf!

**Cofeb Capel Ysgoldy**

Daeth cais i law yn holi beth ddigwyddodd i'r gofeb yng Nghapel Ysgoldy pan chwalwyd ef. A drosglwyddwyd y gofeb i ofal capel arall o'r un enwad? A oedd cofeb yn y capel o gwbl? Tybed all rhai o'r cyn-aelodau roi gwybodaeth.

Doedd dim ymateb o gwbl yn dilyn rhifyn y Nadolig. Pawb yn rhy brysur yn gwledda mae'n siwr! Ond os oes gennych unrhyw ymholiad neu unrhyw bwt o wybodaeth ynglŷn â hanes bro'r *Eco*, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).


Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

Os hoffech yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymuno â chynhyrchiolydd penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEM). Mae ACEM wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfryngiad yswiriant. Mae'r Age Concern Unod yn elusen gofrestredig

MAY/A/WSTO/NOO01 S52.09

# O SIAMBAR SELWYN

Teimlad go drist ydi mynd heibio hen dafarn y Gors Bach y dyddiau hyn a sylwi fod y drws ar gau. Dyma un o dafarndai enwocaf bro'r Eco reit siŵr, ac mi dreuliais innau a fy hen ffrindiau sawl noson ddifyr yno yn y dyddiau a fu.

Pan oeddan ni 'hogia Bethal' yn cael ein temtio i flasu cwrw, yr arferiad fyddai cerdded dros y llwybrau i'r Felinheli, a llithro'n slei naill ai i'r 'Halfway' neu i'r Gardd Fôn. Mi fyddai'n bechod anfaddeuol i ni gael ein dal gan bobol barchus Bethel yn sleifio i'r Gors Bach. Ond 'pan euthum yn hŷn' mi fentrais innau i'r Gors Bach ac mae'r atgofion yn ddifyr.

Y cyfnod pan oedd dau o fy ffrindiau pennaf yn byw ym Methel oedd cyfnod y seiadau difyr. Dau G.O. Sef Gwilym Owen, y darlledwr crafog, a Gareth Owen, y gŵr camera talentog. Roedd cyfaill arall i ni, sef Eifion Lloyd Jones, cynhyrchydd teledu, yn byw i lawr y lôn yn Nhregarth, ac roedd yntau yn un o'r selogion.

Mi fydden ni yn cael yr anrhydedd o gymdeithasu yng nghysur yr ystafell gefn, ac mi fyddai rhai eraill fel John Blaen Parc, Richard Owen, Dafydd Evans a Dic Parry o Benisa'rwaun, ac ambell dro y diweddar Emyr Price ,yn ymuno â'r seiat. Oedd, mi oedd 'blas mwy' ar y cwrw, ac mi roedd y pynciau amrywiol a drafodwyd yn y seiat yr un mor flasus hefyd. Trafod amrywiol bynciau'r dydd fydden ni: pêl-droed, rhaglenni teledu yn naturiol, ac fe gafwyd digon o dynnu coes, 'straeon dros ben llestri' a sawl dadl boeth. Oedd, roedd seiadau'r Gors Bach yn addysgiadol yn ogystal â bod yn adloniant i ni.

Anaml iawn y gwelais i Gwilym yn colli mewn dadl, ond fel gollodd unwaith yn un o seiadau Sadyrnol y Gors Bach. Roedd Eifion a minnau o'r farn y dylid cael lledaid o'r Ŵyl Gerdd Dant ar slot Yr Wythnos. Dadl Gwilym oedd nad eitem newyddion oedd yr ŵyl. Ninnau yr un mor bendant fod yr ŵyl yn achlysur unigryw i ni fel cenedl. Do, ar ôl cryn berswâd fe ildiodd Gwilym, ac fe recordiwyd yr Ŵyl Gerdd Dant ar y Sadwrn yn Llansannan a'i dangos ar y nos Lun dilynol ar slot Yr Wythnos. Ac i un o seiadau'r Gors Bach y mae'r diolch.

Yn ei gyfrol *Y Brenin a Cherddi Eraill* mae gan y diweddar Brifardd Rolant o Fôn gerdd i'r dafarn ac mae'n cyfeirio at y bwrdd llechen oedd yn y bar lle roedd nifer o'r ffyddloniaid wedi torri eu henwau arno:

*Mae bord o lechen fel wy'r gwen gu*
*Yn groeso yno yn y gornel lan,*
*Ac arni linach y gyfeillach fu*
*Yn troi y tir a phoeri tua'r tân.'*

Pan oeddwn i yn ddigon ffôl i lenwi'r tŷ â chadeiriau Eisteddfodau Lleol, roedd hi'n arferiad gen i ddewis enwau cyfarwydd o'r fro fel ffug-enwau: 'Nant y Garth', 'Gallt-y-Foel', ac, wrth gwrs, 'Parc-y-Wern'.

Yn eisteddfod fawr Llanuwchllyn, a gynhaliwyd ar y pryd mewn pabell ar Sadwrn y Sulgwyn, y ffug-enw a roddais oedd 'Y Gors Bach'. Y Parchedig Huw Jones (Huw Bach) oedd yr 'Archdderwydd'. Yn ystod y seremoni fe ofynnodd Huw ar goedd i mi, a'i dafod yn ei foch, beth oedd arwyddocâd y ffug-enw. Atebais mai tafarn wrth ymyl fy nghartref yn Llanddeiniolen oedd Y Gors Bach. A dyma'r 'Archdderwydd' yn hysbysu'r dyrfa:

'Tafarn wrth ymyl cartre'r bardd ydi "Y Gors Bach" a dwi'n siŵr nad ydi o, fel finna, rioed wedi rhoi ei draed dros ei rhiniog!'

A sôn am Steddfod, mi fûm i'n aros am wythnos yn y Gors Bach yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1971. Wythnos i'w chofio oedd honno fel pob wythnos Steddfod. Fy hen gyfaill, y diweddar Alun Pierce, Tremadog, oedd yn rhannu ystafell hefo fi. Bu Alun a minnau yn cyd-steddfota â'n gilydd am chwarter canrif a'r siom fwyaf i mi oedd i Alun farw ychydig cyn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst yn 1989. Mi fydda 'na hen ddathlu wedi bod yn yr Eisteddfod honno.

Do, mi gawsom ni amser difyr dros y blynyddoedd yn y Gors Bach, a Bobbie a Mair yn gynnes eu croeso bob amser. Yn wir, mi fyddai y pedigri o fwngral oedd gen i – Pete – yn cael yr un croeso yno nes iddo adael ôl ei ddannedd ar fysedd Bobbie, pan feiddiodd hwnnw glirio fy ngwydr gwag i oddi ar y bwrdd. Fuo Pete ddim yn diota wedyn. Na, fe gafodd ei ddiarddel o'r Gors Bach.

A bellach mae'r drws ar gau i minnau a phawb arall. Oedd, roedd y cwrw, boed yn chwerw neu fwyn, yn felys iawn. Ac roedd y gymdeithas yn felysach. Diolch am yr atgofion.

Iechyd Da i chi i gyd a Blwyddyn Newydd Dda yn ogystal.


GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
gwefan: www.ydyncig.co.uk



CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol


## BRYNREFAIL


Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580


CYFARFOD APEL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2010

Sefydlwyd Pwyllgor Apêl nos Lun, 18 Ionawr yn Ystafell Gymuned Penisarwaun am 7.30, etholwyd swyddogion ac aelodau'r pwyllgor.

Cynhelir y pwyllgor cyntaf nos Lun, 8 Chwefror am 7.30 yn Neuadd Gymuned Penisarwaun.

Pwysleisir y bydd croeso cynnes i rai na allai bresenoli eu hunain yn y Cyfarfod Apêl ymuno yn y pwyllgor cyntaf hwn. Bydd angen nifer fawr o wirfoddolwyr i godi swm sylweddol, o gwmpas £5,000. Erfynnir arnoch i ymuno yn y dasg i gefnogi ein mudiad ieuenctid hollbwysig.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

**Gwasanaethau Arbennig**

Dathlwyd y Nadolig pan ddaeth nifer dda o aelodau, ieuenctid a phlant ynghyd bnawn Sul, Rhagfyr 20fed. Trefnwyd a llywyddwyd y gwasanaeth gan Jennie Angharad Roberts. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones. Cafwyd darlleniadau o'r Ysgrythur a gweddiau yn cael eu cyflwyno gan Dafydd G. Ellis, Verna Jones a Lowri Prys Williams. Hyfrydwch oedd gwrando ar gyflwyniadau llafar a chân Rhian, Anna a Nia George. Mwynhaodd yr oll oedd yn bresennol ymuno yn y carolau i ddathlu Gŵyl y Geni mewn llawenydd.

Ar y terfyn ymlwybrodd pawb i lawr i Gaffi Caban lle roedd arlwy ardderchog wedi ei baratoi ar ein cyfer. Cafwyd cyfle pleserus i gymdeithasu a dymuno Nadolig Llawen cyn troi am adref.

Ar Sul cyntaf 2010, cynhaliwyd oedfa fendithiol o ymgysegriad ar ddechrau Blwyddyn Newydd dan nawdd yr aelodau. Trefnwyd a chyd-lynwyd y gwasanaeth gan Lowri Prys Williams. Roedd cyfraniadau gan Robert John Williams, Dafydd G. Ellis, Dwynwen Williams, Irfon Ellis, Elen George a Verna Jones.

OEDFAON CHWEFROR

7: am 5.30 Parch Marcus Robinson, Bethel
14: am 5.30 Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
21: am 5.30 Parch Gwilym Parry, Llanrug
28: am 2.00 Mr Clifford Owen, Llanfairfechan

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Nos Iau, Ionawr 21ain, daeth yr aelodau ynghyd i'r Caban. Y wraig wadd oedd Sarah Anderson o'r Fachwen sef cynllunydd a gwneuthurwr Coron Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau 2009. Cafwyd cyfle i weld darluniau manwl o'r cynllun o'i ddechreuad i'r goron orffenedig.

Dymuna'r gangen hysbysebu y bydd yr aelodau yn cynnal noson bingo yng Ngwesty Dolbadarn, nos Wener, 5ed o Chwefror am 7 o'r gloch.


FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

## DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DYMUNA Elizabeth Foster, 98 Pentre Helen, ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar ei phen-blwydd yn 80 oed. Hoffai ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion, blodau a'r arian a gafodd.

Mwynhaodd y parti yn fawr iawn a hoffai ddiolch i bawb am drefnu'r syrpreis.

DYMUNA Mrs Beryl Grifiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch yn fawr iawn i'w holl deulu, ffrindiau, cymdogion a'r 'carers' am yr holl anrhegion a'r cardiau a gafodd yn ystod y Nadolig. Diolch yn fawr i bawb a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

LONGYFARCHIADAU i Dr Ian Peter Williams, mab Nancy a'r diweddar Windsor Williams, 10 Rhes Marian, ar gael ei anrhydeddu yn Feddyg Teulu y Flwyddyn drwy Gymru gyfan mewn seremoni yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Cafodd ei addysgu yn ysgol gynradd Gwaun Gynfi ac ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug, cyn mynd i astudio i Goleg Meddygol Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Erbyn hyn mae'n byw yng Nghaernarfon gyda'i briod. Bethan, a'u tri o blant, Tomos, Deian a Llio, ac yn feddyg teulu yn Meddygfa Cyffin, Conwy lle y mae, yn ôl pob sôn yn uchel iawn ei barch am y gofal tu hwnt a rydd i'w gleifion.

Fel ei deulu, rydym ninnau fel ardal ym ymfalchio yn ei lwyddiant ysgubol.

HOFFAI Mrs Kathleen Davies, 9 Hafol Olau, ddiolch yn fawr iawn i'w holl ffrindiau, teulu a chymdogion am yr holl garedigrwydd, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddi wrth ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD HAPUS. Dymuniadau gorau i Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Mrs Mair Morris, 23 Rhydfadog, a fu farw yn 97 mlwydd oed yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Mr John Roberts (John Hen Lôn) Hafod Olau, a fu farw wedi gwaeledd.

Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mr Jacob James, a arferai gadw siop groser ar y Stryd Fawr ac a fu'n gynghorydd sir am nifer fawr o flynyddoedd.

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad at deulu Mrs Jenny Cashman, Bro Deiniol, a fu farw'n ddiweddar.

YR EIRA. Cafwyd cnwd go lew o eira ddechrau'r flwyddyn. Er nad oedd gymaint â rhai ardaloedd eraill roedd yn ddigon i greu cryn anghyfleustra tra parodd, er roedd y plant i'w gweld yn mwynhau pob pluen a ddisgynnodd!

GWASANAETH NADOLIG YSGOL SUL UNDEBOL. Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ar 20 Rhagfyr. Cafwyd gwasanaeth yn cynnwys detholiad o ganeuon Nadoligaidd a pherfformiwyd drama'r Geni gan aelodau'r Ysgol Sul. Cyfrannodd pawb yn ardderchog i'r perfformiad.

Nos Lun, 21 Rhagfyr, ymunodd plant yr Ysgol Sul â phlant Ysgol Sul Capel Coch i gael parti Nadolig. Cafwyd gwledd i'r plant a'r oedolion gyda nifer o gemau ac ymweliad gan Siôn Corn. Mwynhawyd gan bawb.

CLWB PEL-DROED IEUENCTID. Cafwyd parti Nadolig i aelodau'r clwb yn Nhŷ Elidir ar 20 Rhagfyr. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y parti.

Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr i Malcolm Allen am ei gefnogaeth yn ddiweddar, sydd yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

## DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

A ninnau ar ddechrau Blwyddyn newydd dymunwn anfon cyfarchion y flwyddyn 2010 i holl drigolion y pentref a holl ddarllenwyr yr Eco. Hefyd i'r rhai hynny sydd mor anffodus â bod yn gorfod byw mewn cartrefi preswyl. Gobeithio am flwyddyn well i'r rhai na chafodd flwyddyn rhy dda y llynedd. Felly Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

MRS LAURA WILLIAMS. Dymuna Nancy, Arthur, Rita, Sel, Chris a Michelle ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain mor annwyl ac arbennig.

Diolch o galon i Alan Wyn am ei wasanaeth a'i gefnogaeth, i Gwynfor o E.W. Pritchard am ei drefniadau gofalus ac i staff Plas Garnedd, Llanberis am eu gofal tyner a theimladwy.

Llawer o ddiolch hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

GLANHAU Y GYSGODFAN YN NHY'N Y FAWNOG. Rhyw ddau fis yn ôl bu imi grybwyll yn yr Eco bod cryn angen glanhau y Gysgodfan uchod. Yr oedd tipyn o gwyno wedi bod amdani ond da yw gallu dweud fod y gwaith glanhau wedi cael ei wneud. Nid wyf yn gwybod pwy wnaeth, ond diolch yn fawr iawn am y gwaith. Hefyd mae'n profi fod yna ddarllen ar yr Eco. Diolch yn fawr iawn unwaith eto a gobeithio y cawn weld amserlen y bysiau yn ei le yno hefyd yn lled fuan.

Y TYWYDD. Erbyn hyn rwyf yn sicr ein bod wedi cael mwy na digon ar yr eira oherwydd y mae wedi bod ar y ddaear yma ers cyn y Nadolig. Mae'r plantos wrth eu boddau yn cael chwarae ynddo ac, wrth gwrs, dim ysgol chwaith.

Mae gennym fel ardal le mawr i **ddiolch** i Gyngor Gwynedd am raeanu o Ddeiniolen i'r Allt Ddu lawer gwaith ers cyn y Nadolig. Hefyd am ofalu fod halen yn y blychau melyn sydd yma ac acw hyd yr ardal, a thrwy hynny yn gymorth i'r ardalwyr ei roi ar y ffyrdd llai. Wrth i'r Cyngor wneud y gwaith yma maent yn gymorth i fysiau Padarn allu dod i fyny i Ddinorwig. Felly, ga i ddiolch i Gyngor Gwynedd ac hefyd i reolwyr bysiau Padarn am gofio amdanom yn ystod yr eira. Diolch yn fawr iawn.

# CROESI'R RUBICON
# THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno drama newydd gan Valmai Jones


**Theatr Seilo, Caernarfon**

**9 a 10 Chwefror, am 7.30 o'r gloch**

Gwraig weddw dlawd yw Esme sy'n chwilio am ddechrau newydd ac wedi derbyn swydd fel gofalwr bwthyn unig yn y wlad tra bod ei berchennog i ffwrdd. Mae'r tŷ, fel ei berchennog, yn llawn cyfrinachau ac mae ofnau Esme'n cynyddu wrth i ymwelydd diarth gyrraedd i ddwysau'r hunllef. Ai dechrau newydd oedd croesi'r Rubicon, ynteu dechrau'r diwedd...?

*Y cast:* Valmai Jones a Christine Pritchard
*Cyfarwyddwr:* Bryn Fôn
*Cynllunyudd:* Emyr Morris-Jones

Bydd 'Croesi'r Rubicon' ar daith o 7 Chwefror hyd at 25 Chwefror. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Linda Brown ar (01286) 676335.


Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI · DRYSAU · CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

DIOLCH. Bob gyda'r nos roedd yr addurniadau Nadolig yn werth i'w gweld yn y pentref, ac yna daeth yr eira a golau'r lleuad i orffen y pictiwr. Diolch i'r rhai fu'n gosod goleuadau ar lwyn a choeden, y pibonwy wincio ar wyneb y tŷ a'r goleuadau yn y ffenestri a sirioli'r pentref dros yr ŵyl.

Cawsom naws y Nadolig hefyd gan aelodau'r Ysgol Sul yn eu gwasanaeth Nadolig yn y capel a chan ddisgyblion yr ysgol yn eu Sioe Nadolig. Diolch i chi, blant, a llongyfarchiadau ichi am ddysgu eich gwaith mor dda. Ac yna fel yr oedd y plant ar eu ffordd adref o'r Ganolfan ar ôl eu perfformiad o'r sioe nos Fercher daeth Siôn Corn ar ei ymweliad blynyddol â'r pentref. Mae'n siŵr ei fod wedi clywed ac wedi ei swyno gan y canu dda a oedd yn dod o'r Ganolfan.

YR EIRA. Wedi'r gwyliau Nadolig cafodd y plant ddiwrnod i setlo yn ôl yn yr ysgol cyn i'r eira a'r rhew ei gwneud hi'n anodd i neb allu symud o'r pentref na dod yma. Fe fwynhaodd y plant eu hunain yn chwarae yn yr eira, ac roedd yna awyrgylch glos yn y pentref, wrth i bawb orfod cerdded o gwmpas.

BRYSIWCH WELLA. Yn anffodus llithrodd Mrs Angela Price, Bryn Maen, ar y rhew a thorri ei hysgwydd. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn gwella'n fuan.

Ychydig cyn y Nadolig, syrthiodd Mr Kenny Griffith, Wayside Cottage a thorri ei goes. Brysiwch wella yw ein dymuniad i chitha hefyd.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mr David Parry, 4 Bro Waun, a Mr Jeff Daniels, Stad Tŷ Hen, wedi iddynt dderbyn triniaeth yn yr ysbyty ac adref yn cryfhau erbyn hyn.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Dafydd Greasley, Stad Pant Waun, wedi iddo dderbyn triniaeth pen-glin yn Ysbyty Gobowen.

Cymerwyd Mr Gwilym Parry, Stad Bryn Golau, i'r ysbyty ychydig cyn y Nadolig ond cafodd ddod adref mewn pryd i fwynhau y Nadolig.

Dymunwn yn dda hefyd i Dylan, mab bach Rhian a Martin, Melfyn, Stad Ty^ Hen, sydd yn gorfod teithio i Ysbyty Lerpwl yn aml er mwyn cael profion arbennig.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Bert Smith, Stad Tref Eilian, sydd wedi mynd i aros i Gartref Preswyl Plas Pen Gwaith, Llanberis, am gyfnod.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â theulu Garreg Fawr yn eu profedigaeth o golli tad Alwyn, yn ddiweddar, taid annwyl i Iona, Wena a Helen a thad yng nghyfraith Valmai.

Yn frawychus o sydyn yn ei gartref, 10 Ael y Bryn, bu farw Evan Wyn Roberts. Cydymdeimlwn yn ddwys â Garym, ei fab, ac â Marlene, Tanya, Fiona a Debrah, ei genod, yn eu profedigaeth o golli eu tad.

Daeth tristwch a hapusrwydd i deulu 9 Tŷ Hen. Cydymdeimlwn yn ddwys â hwy yn eu profedigaeth o golli tad Jacqueline. Yna ganwyd mab bychan, Rhodri, i'w merch Charleen a'i phriod, Owain, ŵyr bach i Jacqueline ac Alan.

Bu Noa, mab bychan dwy flwydd oed Dilwyn a Rhian, Gorwel y Môr, yn gymorth a chysur mawr i'w dad a'i fam dros gyfnod y Nadolig. Ychydig ddyddiau cyn dyddiad ei eni collodd Dilwyn a Rhian eu hail fab bychan, Elis Wyn.

Mae ein cofion cynnes a'n cydymdeimlad dwys gyda chi, deulu bach.

DYMUNA Dilwyn a Rhian, Gorwel-y-Môr, ddiolch yn ddiffuant am y cydymdeimlad di-bendraw, y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd ar golli eu mab, Elis Wyn. Bydd yr arian yn cael ei roi tuag at elusen Sands. Diolch hefyd i'r Parch Geraint Roberts am ei wasanaeth parchus ddiwrnod yr angladd ac i Malcolm Griffiths o Pritchard & Griffiths, Tremadog, am ei drefniadau. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH. Dymuna Nelma, Lleufer a'r teulu, Stad Croes y Waun, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar golli chwaer Nelma yn ddiweddar.

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i David Henderson, Bryn Elen, ar ei ddyweddiad â Heledd Bryn Parri.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Claire Davies, Stad Tref Eilian, ar gyrraedd eI un ar hugain mlwydd oed ac i Rachel Hanks, Dôl Erddi, fu'n dathlu cyrraedd ei deunaw mlwydd oed. Dymunwn yn dda i'r ddwy ohonoch i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Emma a Chris, Stad Bro Waun, ar enedigaeth merch fach, Cadi Wyn, chwaer a ffrind fach i Efa. Mae Gari a Christine Davies, Hafan, yn gwirioni ar eu trydydd wyres fach.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Marion Iwan, Afallon, ar enedigaeth ŵyr bach eto. Ganwyd Eban Dafydd i Dawn a Llion. Dyma dri ŵyr bach i Marion yn ystod y flwyddyn 2010.

DYMUNWN y gorau i ddarllenwyr yr Eco am y flwyddyn 2010.

## Teyrnged i Anti Marian

**Marian Wyn Jones,**
**Y Foel, Waunfawr**

Yn ddi-os, hogan y filltir sgwâr oedd Marian, neu Anti Marian i mi. Un a dyfodd i fyny â'i gwreiddiau'n dynn yn ardal y Waun, a'i byd a'i betws ynghanol y bobol a'r byd natur o'i chwmpas.

Fe'i ganed ar Ragfyr yr 2il, 1934, yn ferch ieuengaf i'r diweddar David ac Ellen Jones, 12 Dôl Erddi, Waunfawr, a chwaer i Griff a'r diweddar Leslie (sef dad) a Kathleen. Derbyniodd ei haddysg gynnar yma yn ysgol y Waun cyn symud i Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, ac yna i'r Coleg Normal, Bangor, i hyfforddi fel athrawes. Treuliodd ei blynyddoedd cynnar yn y byd addysg yn Lerpwl cyn cael swydd yn nes at adref yn ysgol Hirael, Bangor. Symudodd ymlaen wedyn i ysgol Glan Cegin, Maesgeirchen, lle treuliodd flynyddoedd hapus fel pennaeth y babanod yno. Byddai wrth ei bodd yn ymwneud â phlant ac mae gen i gof ohoni wrthi am oriau yn creu llyfrau difyr a chynllunio gwaith llaw ar eu cyfer. Cofiaf iddi wneud hwyaden bren i mi pan yn blentyn, a threuliais oriau yn gwthio'r hwyaden i fyny'r allt yn Dôl Erddi er mwyn imi gael eistedd arni a chael gwibio'n sydyn i lawr yr allt yn ôl.

Bu iddi ymddeol yn gynnar, yn rhannol oherwydd salwch, ac hefyd oherwydd ei bod eisiau edrych ar ôl ei mam. Bu'n hynod o garedig tuag ati – deuai adref o'r ysgol a'i gosod yn y car i fynd am dro, a'r hoff gyrchfan oedd i lan llyn Cwellyn, lle'r arferai'r ddwy eistedd am oriau yn mwynhau llonyddwch y llyn cyn picio i Feddgelert i edmygu'r rhododendrons yn y gwanwyn ac i edrych mewn syndod ar brydferthwch byd natur o'u cwmpas yn yr haf.

Wrth ddisgrifio Anti Marian, mae rhywun yn meddwl am rywun bychan, eiddil, heini, yn brysio o le i le gan sgwrsio hefo hwn a'r llall. Ond er y corff bychan roedd iddi andros o galon fawr. Os oes y ffasiwn beth a bod yn rhy garedig neu'n rhy hael – wel roedd Anti Marian yn un felly. Doedd dim byd yn ormod ganddi ac un o'i phleserau mwyaf oedd mynd am dro i lefydd – ar dripiau neu ar wyliau, a phrynu anrhegion i bobl at unrhyw achlysur. Dim ots beth fyddai'r gost – pe byddai'n teimlo ei fod yn addas, yna i'w phwrs yr aethai i'w brynu. Roedd y Nadolig, wrth gwrs, a'r arfer o roi a derbyn yn gyfle gwych iddi wneud hynny.

Wedi iddi ymddeol, ac ar ôl gofalu'n dyner ac yna claddu ei mam, cafodd gyfle eto i ailgydio yn ei dawn greadigol a'i hoffter o blant drwy weithio'n wirfoddol yn yr Antur. Mwynhaodd y profiad o helpu gyda'r oedolion a chydweithio gyda'r staff a byddai bob amser yn byrlymu o'r hanesion a'r straeon a'r troeon trwstan a brofodd yno. Hyd heddiw, mae aelodau'r Antur yn holi amdani – rhai â dagrau yn eu llygaid wrth sylwi nad yw Marian bellach o gwmpas y Waun fel y byddai, ac o ddeall nad oedd ei hiechyd yn rhy dda.

Dwi'n siŵr y cytunwch a mi wrth ddweud y bu Anti Marian yn gymeriad blaenllaw iawn yn y pentref. Byddai'n mynychu pob peth oedd o gwmpas, o'r gymdeithas lenyddol i Ferched y Wawr, ond y Capel oedd angor ei bywyd. Câi bleser o fynd i'r oedfa yn selog bob bore dydd Sul, a rhaid oedd i rywbeth mawr fod o'i le iddi golli. Yn ogystal â hyn roedd hi hefyd yn aelod o'r Cyngor Plwyf ac arferai weithio'n galed hefyd tuag at Eco'r Wyddfa. Byddai miri mawr ganddi bob mis ynghylch dosbarthu'r Eco. Arferai fynd yn fân ac yn fuan o un tŷ i'r llall a'r Eco'n dynn dan ei chesail. Fe gofiai am y dyletswyddau hyn yn ystod ei gwaeledd, a sawl gwaith y ceryddodd fi i ddanfon yr Eco i dŷ hwn a'r llall tra roedd hi'n byw yn Willow Hall.

Ni ellir meddwl am Anti Marian heb feddwl am anifeiliaid. Byddai pob anifail yn agos iawn at ei chalon – cofiaf y cŵn a fu ganddi, ac a gawsai cystal os nad gwell triniaeth nag unrhyw blentyn. Byddai enw Anti Marian a Siôn Wyn, nau Anti Marian a Mot ar bob cerdyn ac anrheg.

Byddai'n gas ganddi weld unrhyw anifail yn dioddef cam ac roedd ei tŷ bob amser yn llawn cathod – a phob un yn cael cystal gwledd o fwyd a hi.

Oedd, roedd Anti Marian yn dipyn o gymeriad! Mae pawb a'i hadwaenai yn sôn am ei hoffter o sgwrs a'r ffordd yr hoffai gael hwyl. Cafwyd sgyrsiau difyr ganddi a byddai ei gwybodaeth o'r ardal a'r hen gymeriadau yn hynod ddiddorol. I goroni'r cwbl – hoffai chwerthin.

Un o'i hoff ddiddordebau, heblaw am ddarllen, cymdeithasu, chwaraeon o bob math (yn enwedig rygbi a hoci) ac anifeiliaid, oedd cerdded a chrwydro. Yn sicr, nid un i eistedd yn y tŷ oedd hi, a byddai'n anodd iawn cael gafael arni. Sawl gwaith y digwyddais

'alw' yn nhŷ Anti Marian, neu 'dŷ nain' i fi - a'i chael ddim yno. Roedd rhaid gwneud 'appointment' i'w chael yn y tŷ! Gwyddai am bob llwybr cyhoeddus yn ardal Waunfawr, a chafodd bleser yn eu crwydro gyda'i ffrind ffyddlon, Olwen. Aethai'r ddwy am dro ddwywaith y dydd weithiau – a phan oedd hi'n dymor mwyar duon, rwy'n siŵr nad oedd neb cystal yn yr ardal am eu casglu. Byddai fy rhewgell yn llawn!

Os na fyddai'r ddwy yn crwydro ar droed – wel, y bws amdani! Doedd dim i chi weld y ddwy yn Llandudno ddwywaith neu dair yr wythnos. Gadael y car yn Morrisons ac i ffwrdd â nhw ar y bws i Landudno. Siopa rhywfaint yn Marks a phaned mewn caffi cyn troi 'nôl am adre yn y bws!

Oedd, roedd Anti Marian yn dipyn o gymeriad a bydd rhyw wacter mawr yn y Waun i mi ar ei hôl. Cofiaf ei chwerthin, ei sgwrsio, ei bwrlwm a'i hegni a'i haelioni mawr. Halen y ddaear oedd hi, a'i gwreiddiau, ei hiaith, ei thraddodiad a'i diwylliant yn bopeth iddi. Braf yw ei gweld yma heddiw yn Eglwys y Waun, ymhell o'i phoen a'i chystudd, yn ôl ymysg ei phobol – ac yn ei chynefin.

Boed i chi orffwys mewn hedd, Anti Marian, a diolch am bob dim.

ANWEN




YSGOL WAUNFAWR

Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

Bu'n ddiwedd tymor prysur fel arfer. Cafwyd ffair Nadolig lwyddiannus iawn ar Ragfyr y 9fed. Roedd hi'n braf gweld yr ysgol yn llawn o rieni a phlant.

Cafodd plant blwyddyn 3 a 4 brofi Nadolig Fictorianaidd ym mwthyn Highgate ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy ddydd Gwener, 3 Rhagfyr. Cawsant gyfle i wneud pwdin Dolig, gwisgo yn nillad y cyfnod a gwneud addurn Nadolig yn ogystal. Cafwyd diwrnod addysgiadol da iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain.

Bu Anti Howela ac Anti Sylvia yn ddiwyd yn paratoi cinio Nadolig blasus ar ein cyfer ddydd Iau, 17 Rhagfyr, a chafwyd disgo i ddilyn yn y pnawn.

Cafwyd tair sioe Nadolig lwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Diolch i'r plant a'r staff am eu gwaith clodwiw a diolch i'r rhieni hynny a fu'n helpu gyda'r goleuadau, y gwisgoedd a gwerthu raffl ac ati. Diolch i Steven Kingston Everitt am ffilmio'r sioe bydd DVD ar werth yn fuan.

Daeth rhieni'r plant Meithrin i'r ysgol fore ddydd Gwener, 18 Rhagfyr, i glywed y plant yn canu a chael paned a mins pei. Roedd y plant yn werth eu gweld yn eu gwisgoedd a, chyn mynd adref, daeth Siôn Corn ag anrheg iddynt.

Yn ystod y tymor hwn bydd Miss Natasha Birkett a Mr Rhys Edwards, sy'n fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor, yn treulio cyfnod o 3 wythnos yn nosbarthiadau Mrs Sioned Parry a Miss Sioned Hughes ar gyfnod o ymarfer dysgu. Dymunwn bob llwyddiant i'r ddau.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

• Bydd y Cyngor Ysgol yn trefnu diwrnod i godi arian tuag at Ymgyrch Haiti - mwy o fanylion mis nesaf.

• Ni fydd ysgol ar ddydd Gwener, Chwefror y 5ed. Cynhelir sesiynau hyfforddiant i'r athrawon.

## CYNGERDD NADOLIG YR YSGOL





THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Y Gofalwr
gan Harold Pinter

4 Chwefror tan 13 Mawrth 2010

2 berfformiad yn y Gogledd:

24-27 Chwefror yn Neuadd Dwyfor Pwllheli

2-3 Mawrth yn Theatr John Ambrose, Rhuthun

Gwasanaethau Garddio Gorwel
01286 650761
07773 020424
*Planu Llwyni*
*Planhigion a Llysiau*
*Tori Gwair a Gwrychoedd*
*Tocio Palu a Chwynu*
*Tacluso a Gofal Tymhorol*
*Gwella Safon Tir*
*Glanhau Llwybrau, Tywarchu*
CWBL YSWIRIEDIG

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
·Tŷ Rhydd · Bwyd Cartref · Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
· Cerddoriaeth Fyw · Cwrw Go Iawn
Ffôn: (01286) 650218

Siop Waunfawr
(Howard a Debbie)
*Pay Point, Papur Newydd, Cardiau Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd, Nwyddau Tŷ*
Ffôn: (01286) 650834
Diolch am gefnogi'r fenter newydd
ar agor 7.30 – 6.30
8.00 – 5.30 (Sadwrn)
8.30 – 12.30 (Sul)
e-bost: siopwaunfawr@live.com

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 1af o Ragfyr.

**Gweddi.** Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd.

**Materion o'r cofnodion**

*Eco'r Wyddfa.* Ystyriwyd cais Eco'r Wyddfa am gymorth ariannol a phenderfynwyd cyfrannu £300.

*Teledu digidol.* Cyflwynwyd sylw Aled Green bod y lluniau teledu yn rhewi yn aml, penderfynwyd disgwyl tan y bydd yr holl newid wedi ei gwblhau.

*Bryn Tirion, Penisa'waun* - llythyr Gwynedd yn addo gosod llinellau melyn yma ar yr 8ed o Ragfyr.

*Cerbydau mawr.* Dywedodd Hefin Williams nad oes arwyddion dim 'Sat Nav' wedi eu gosod ger Ynys Iago, ychwanegodd Phyllis Ellis bod bws mawr o Gelli Gyffwrdd wedi croesi'r ffordd ger Gors Bach a rhwygo'r waliau ar ei ffordd at Gapel Glasgoed – adroddiad i Wynedd.

*Llifogydd Pen Llyn a Chwm y Glo.* Darllenwyd adroddiad Pat Jones a thrafodwyd y sefyllfa yn eang gan ystyried effaith pontydd Rhythallt a'r tyfiant o diroedd preifat i'r afon. Cyfeiriwyd hefyd bod llifogydd yn waeth ers diddymu'r llyn, a oedd ger Cwm y Glo, yn y tridegau. Penderfynwyd gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd beth yw eu bwriad ac a ydynt wedi gofyn i'r tirfeddianwyr docio'r tyfiant i'r afon. Hefyd gofyn i 1st Hydro beth yw eu hymateb i'r sefyllfa ac a ydynt yn gollwng dŵr o lyn Marchlyn yn ystod glaw mawr a llifogydd.

*Lôn Bach Awyr.* Dywedodd Elspeth Mitcheson bod yr Adran Priffyrdd wedi clirio'r dŵr oddi yno yn llwyddiannus.

*Mainc Gors Bach.* Yn ôl Idris Morris nid oes lle addas iddi yn Seion, felly gellir ei gosod yng nghae chwarae Bethel. Caniatawyd talu i Menter Fachwen am ei chludo o Gors Bach a'i gosod.

*Biniau ailgylchu Rhiwlas.* Cyflwynwyd ateb Gwynedd na ail osodir y biniau tan ganol Ionawr. Penderfynwyd gofyn amdanynt cyn hynny a hysbysu Gwynedd bod gwastraff (e.e. setee) yn cael ei ollwng yno, hefyd gofyn a oes modd gadael sgip yno.

*Cysgodfan bws Rhydfadog.* Dywedodd Phyllip Jones bod metel yn rhydd yng ngwaelod y gysgodfan.

*Cysgodfan bws Rhiwlas.* Dywedodd Hefin Williams nad oes penderfyniad ar ei leoliad hyd yn hyn.

*Toiled Deiniolen.* Derbyniwyd cadarnhad Gwynedd bod yr adeilad wedi ei gau ers diwedd Hydref ond ni fydd y dŵr na'r trydan yn cael eu datgysylltu tan yr 28ain o Chwefror. Rhoir y safle ar werth wedyn.

**Gohebiaethau a materion eraill**

*Band Llydan.* Cyflwynwyd llythyr Hywel Williams AS yn dweud ei fod wedi cael y maen i'r wal ar ôl hir ymdrechu i gael y gwasanaeth i Riwlas.

*Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd.* Cyflwynwyd cynnig y gwasanaeth i'r Cyngor at weithgareddau fel codi sbwriel, glanhau graffiti, cynnal a chadw tir, paentio a.y.y.b. Penderfynwyd gofyn a fuasent yn barod i baentio gwaith coed Neuaddau, Capeli ac Eglwysi.

Lôn Cae Metta. Dywedodd Phyllis Ellis bod y trigolion yn gwrthod gadael i'r Sir wella'r ffordd yma.

*Llifogydd.* Cyfeiriodd Geraint Hughes at ddŵr yn codi a chroesi'r ffordd ger Bryntirion.

Llongyfarch. Dywedodd Huw P. Hughes bod Dafydd Guto Ifan, Y Nyth, Glasgoed, wedi ennill ei hanner canfed cadair yn Eisteddfod Llanaelhaearn yn ddiweddar

**Cynllunio**

*Cartref Penisa'rwaun.* Newid amod 9 o ganiatâd C08A/0007/18/LL er mwyn galluogi defnyddio'r cartref i bobl dros 40oed yn hytrach na chyfyngu'r gofal i'r henoed yn unig.

Gwrthwynebwyd y cais yma am yr un rhesymau a wnaed yn Hydref 2009 sef:-

1. Diogelwch cymunedol - pobl ag anabledd meddyliol yn debygol o grwydro gan beri braw i drigolion y pentref, yn arbennig plant yr ysgol sydd ond tafliad carreg i ffwrdd.
2. Trafnidiaeth - nid yw'n gywir dweud na fydd mwy o drafnidiaeth gan mai unig bwrpas y datblygiad yw i allu derbyn mwy o bobl i aros a byddai'r rheini yn derbyn mwy o ymwelwyr. Mae'r rhan yma o'r ffordd wedi ei dynodi fel un beryglus gan y Cyngor Sir.

**Ceisiadau a dderbyniwyd:-**

*Cae Mabon, Fachwen* - adeiladu gweithdy ar gyfer gwaith coed ( cais ôl-weithredol)

**Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:-**

*Y Fachell, Llanddeiniolen* - Codi arwydd heb ei oleuo

*Bryn Llys, Rhiwlas* - estyniad.

*Y Weirglodd Goch,* Penisa'rwaun - estyniad.

*Gorsaf Beran.* Cafwyd ateb ffôn oddi wrth Wynedd yn dweud mai caniatad i werthu chwe cerbyd sydd yno a'u bod yn derbyn mai cerbyd yw carafan. Penderfynwyd dadlau hyn - bod rhaid trwyddedu cerbyd. Hefyd bod lorri fawr ar werth yno ers wythnosau.

**Llwybrau**

Cyfeiriodd Hefin Williams at or-dyfiant wrth ochr palmant Penrhyn Terrace/Bron y Waun, Rhiwlas - cwyn i Wynedd.

Dywedodd Huw P. Hughes ei fod wedi trefnu cael gât newydd o ystordy Cibyn i'r tirfeddiannwr ei gosod y tu cefn i'r hen Ficerdy.

Llwybr diogel i ysgol Deiniolen. Dywedodd Geraint Hughes ei fod yn bryderus am ddiogelwch yn ystod y gwaith adeiladu. Cyfeiriwyd hefyd at y peryglon posibl pan fydd plant yn croesi'r ffordd o'r llwybr newydd ger Pen y Golwg lle mae ceir yn parcio. Hefyd dywedwyd bod llawer o gwyno bod y groesfan o'r ysgol i'r pentref yn rhy agos at y gyffordd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5ed o Ionawr 2010.

# CLYTWEITHWYR PERIS





Dydd Iau, 9fed Rhagfyr, fe gyflwynodd Clytweithwyr Peris siec am £1,215 i Mr D.J. Crawford, Prif Ymgynghorydd Llawfeddygaeth yn Ysbyty Gwynedd, tuag at Cancr y Fron Cymru. Elw raffl oedd hwn gan y grŵp o gwiltiau a chlustogau. Yr enillwyr oedd 1) Linda Scarr, Reading (Cwilt Dwbl); 2) Mr Gladden, Angmering (Cwilt Crud); 3) Janie Lampard, Nant Peris (2 glustog). Dymuna'r grŵp gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ffyddlon.

ANGEN GWIRFODDOLWYR

A fedrwch chi sbario 2 awr y mis i helpu'r Eco?

Mae croeso i unrhyw un ddod draw i'r Sefydliad Coffa am 5 o'r gloch ar nos Sul gosod yr Eco

# NEWYDDION CYNGOR GWYNEDD

## Cyngor Gwynedd yn cyflwyno gwasanaeth newydd i Arfon

Bydd gwasanaeth ailgylchu newydd yn cael ei gyflwyno yn ardal Arfon o Wynedd, gan ei gwneud yn haws i bawb fyw yn wyrdd.

O 25 Ionawr ymlaen bydd y ffordd mae gwastraff yn cael ei gasglu yn newid gyda Chyngor Gwynedd yn cyflwyno gwasanaeth ychwanegol lle gall pobl anfon gwastraff bwyd a gardd i gael ei gompostio.

Dyma'r cam olaf yn yr ymgyrch i wneud trigolion Gwynedd yn bencampwyr amgylcheddol. Mae'r newidiadau eisoes wedi llwyddo yn Nwyfor a Meirionnydd a gwelwyd lleihad sylweddol yn faint o wastraff sy'n cael ei gladdu ers eu cyflwyno.

Wedi i'r newidiadau ddod i rym bydd gwastraff bwyd a gardd yn mynd yn y bin brown a bydd gweddill y gwastraff – na ellir ei ailgylchu – yn mynd i'r bin gwyrdd neu sachau du. Bydd y bin gwyrdd yn cael ei gasglu un wythnos a'r bin brown yr wythnos ganlynol.

Bydd pob cartref yn yr ardal bellach yn derbyn gwasanaeth casglu gwastraff i'w ailgylchu bob wythnos sef y bocs glas. Gellir rhoi'r eitemau canlynol yn y bocs: papur a chylchgronau; cardfwrdd; poteli a jariau gwydr; caniau bwyd a diod; poteli plastig; aerosols; ffoil glân; batris tŷ.

Mae Cyngor Gwynedd wedi anfon pecyn gwybodaeth i bob cartref a bydd teuluoedd yn derbyn bin brown newydd a chadi cegin fel y gall pobl eu defnyddio i ddal gwastraff bwyd.

Dywedodd Uwch Arweinydd Portffolio Amgylchedd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Gareth Roberts:

'Mae newid y ffordd rydym yn casglu gwastraff o gartrefi Arfon yn gam pwysig arall tuag at leihau gwastraff a diogelu'r amgylchedd. Rydw i'n annog pobl i gadw golwg am y pecyn gwybodaeth sydd wedi ei anfon i bob cartref yn yr ardal, fydd yn egluro'r newidiadau yn llawn.'

Bydd yr holl wastraff bwyd a gardd yn cael ei droi yn gompost a fydd yn cael ei ddefnyddio i wrteithio gerddi, parciau a llecynnau glas eraill. Bydd hyn yn cau'r cylch gan y bydd gwastraff bwyd a gardd yn mynd yn ôl i'r tir.

Erbyn diwedd 2009 roedd Cyngor Gwynedd eisoes yn ailgylchu a chompostio 40% o'i



gwastraff – gan gyrraedd targed Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010. Bydd y ffigwr yma yn codi eto pan gyflwynir y gwasanaeth newydd yn Arfon ac mae Gwynedd mewn sefyllfa gref i gyrraedd y nod o ailgylchu a chompostio 52% o'i gwastraff erbyn 2012/13.

Ychwanegodd y Cynghorydd Roberts: 'Mae mwy a mwy o bobl yn derbyn y ffaith fod ailddefnyddio ac ailgylchu yn cwtogi defnydd o ynni ac yn lleihau faint o garbon rydym yn ei ryddhau i'r amgylchedd.'

Am fwy o wybodaeth am y newidiadau, neu i archebu bocs glas newydd, ewch i'r wefan www.gwynedd.gov.uk/ailgylchu neu cysylltwch â Desg Gymorth Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd ar (01286) 679872 neu ailgylchu@gwynedd.gov.uk

## Sut i arbed arian ac arbed yr amgylchedd

Mae Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd yn cynnal ei chynhadledd flynyddol ar y thema 'Sut i arbed arian ac arbed yr amgylchedd' ar nos Fercher, 27 Ionawr 2010 am 6pm yn Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog. Mae'r gynhadledd yn agored i unrhyw un fynychu ac yn rhad ac am ddim.

Bydd y gynhadledd yn darparu gwybodaeth ar sut gall unigolion wneud eu rhan i arbed yr amgylchedd a rhwystro newid hinsawdd, gan arbed arian yr un pryd. Ceir gwybodaeth hefyd ar sut i arbed cannoedd ar eich bil trydan, sut i gynhyrchu ynni eich hun, sut gall tyfu bwyd arbed arian mawr a llawer mwy.

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a chefir cyfle i ennill coed afalau Enlli. Am fwy o wybodaeth ewch i www.pagwynedd.org neu i archebu lle ffoniwch 01286 679652 neu e-bostio: PartneriaethAmgylcheddol@gwynedd.gov.uk

## Beth sydd ar gael yn Archifdai Gwynedd?

Gyda nifer o raglenni teledu bellach yn amlygu'r diddordeb mewn olrhain hanes teulu, mae mwy a mwy o bobl yn dangos diddordeb mewn llunio eu coeden teulu eu hunain.

Gyda hynny mewn golwg, mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd wedi trefnu cyfres o sesiynau blasu a fydd yn rhoi arweiniad i bobl am sut i fynd ati i gychwyn olrhain eu hachau. Bydd y cyrsiau undydd yn cael eu harwain gan staff arbenigol Gwasanaeth Archifau y Cyngor a fydd yn rhoi canllawiau ar sut i gychwyn olrhain hanes eich teulu. Bydd cyfle i rheini fydd yn mynychu'r cyrsiau i edrych ar wahanol fathau o ffynonellau a thystiolaeth, yn ogystal â siawns i holi'r archifyddion gydag unrhyw gwestiynau am y maes.

Cynhelir cyrsiau 'Olrhain Hanes Teulu' yn Archifdy Caernarfon ar y dyddiadau canlynol: - Cwrs Hanes Teulu (Cymraeg) undydd ar ddydd Sadwrn, 16 Ionawr 2010 yn Archifdy Caernarfon am 10.30am. Cwrs Hanes Teulu (Saesneg) undydd ar ddydd Llun, 18 Ionawr 2010 yn Archifdy Caernarfon am 10.30am. Cynhelir cyrsiau blasu hefyd yn Archifdy Caernarfon - mae'n gwrs hwylus i'r rheini sydd heb ddefnyddio'r archifdy o'r blaen. Bydd y cyrsiau yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:- Sesiwn Blasu: Beth sydd ar gael yn eich archifdy lleol? (Cwrs Cymraeg) yn Archifdy Caernarfon o 10am hyd 12pm ar ddydd Sadwrn, 30 Ionawr 2010. Sesiwn Blasu: Beth sydd ar gael yn eich archifdy lleol? (Cwrs Saesneg) yn Archifdy Caernarfon o 2pm hyd 4pm ar ddydd Sadwrn, 30 Ionawr 2010. Mae'n angenrheidiol archebu lle ar bob un o'r cyrsiau yma. Os am archebu lle ar un o'r cyrsiau a gynhelir yn Archifdy Caernarfon, cysylltwch â Gwasanaeth Archifau Gwynedd ar (01286) 679095, neu e-bost: archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk

## Chwilio am 120 o Artistiaid

Ydych chi'n un o'r nifer fawr o artistiaid lleol, myfyrwyr celf neu grefftwyr sydd yn digwydd bod yn gweithio yng ngogledd Cymru?

Mae Helfa Gelf/Art Trail yn edrych am bobl o'r fath i gymryd rhan yn ymgyrch Stiwdio Agored 2010, ac maent yn awyddus iawn i glywed gennych. Fel rhan o gynllun Helfa Gelf, mae'r cyhoedd yn cael eu hannog i ymweld ag artistiaid wrth eu gwaith yn eu gweithdai. Dyma gyfle i gael cip y tu ôl i'r llenni a chyfle hefyd i sgwrsio gyda'r artistiaid a'r crefftwyr am eu gwaith creadigol. A'r cyfan am ddim!

Yn ystod y blynyddoedd blaenorol gwelwyd rhychwant eang o waith gweledol yn cynnwys peintio a cherflunio, argraffwaith, serameg, gwneud tlysau a nyddu basgedi, cerfio pren a ffotograffiaeth. Mae hwn yn gyfle cyffrous i'r cyhoedd gael gweld sut ac ym mhle y mae artistiaid yn gweithio a hefyd i brynu'n uniongyrchol oddi wrth y gwneuthurwr ei hun. Yn ogystal â Stiwdio Agored bydd arddangosfeydd yn cael eu cynnal mewn nifer o leoliadau ar hyd gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn. Hefyd mae'r artistiaid yn cael cyfle i ddatblygu'n broffesiynol ac i fynychu dosbarthiadau meistr i arbrofi gyda dulliau newydd. Dywedodd Gwawr Roberts, Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd:

'Mae'r cynllun Helfa Gelf cynllun yn rhoi cyfle unigryw i aelodau'r cyhoedd ymweld â gweithdai artistiaid. 2009 oedd y tro cyntaf i Wynedd gymryd rhan yn y cynllun, ac roedd y cyhoedd yn gallu ymweld â 26 o weithdai artistiaid ledled Gwynedd.

'Rydym yn gobeithio y bydd hyd yn oed mwy o artistiaid yn ymuno gyda'r Helfa Gelf yn 2010. Nid yn unig y mae'n rhoi cyfle arbennig i'r rheini sydd â diddordeb mewn celf i gael ymweld â gweithdai artistiaid, ond mae hefyd yn gyfle gwych ar gyfer ein hartistiaid lleol i arddangos a hyrwyddo eu gwaith.'

Bydd y pumed Stiwdio Agored ar gyfer artistiaid lleol yn cael ei gynnal ddyddiau Gwener i'r Sul yn ystod tri phenwythnos olaf mis Medi 2010 mewn gwahanol fannau yn siroedd Gwynedd, Conwy, Dinbych a'r Fflint. Gallwch wneud cais rwan drwy fynd ar y wefan www.helfagelf.co.uk (cliciwch ar cais yn awr). Y dyddiad cau yw 14 Chwefror 2010.

Am fwy o wybodaeth neu ffurflen gais ewch i'r wefan ar www.helfagelf.co.uk neu e-bost sabine@helfagelf.co.uk

# CHWARAEON

# CIPOLWG YN ÔL

I ddechrau ga'i ddymuno Blwyddyn, a gobeithio, Degawd Newydd Dda i chwi. Buasai'n ddiddorol edrych yn ôl dros y ddegawd diwethaf. Rwy'n siŵr fod cryn newid wedi bod ym myd y campau, ac efallai nifer o'r hen broblemau 'yma o hyd'. Rhai yn gofyn erbyn hyn a oes gormod o dimau pêl-droed mewn ardal mor glos, a bod yr hufen yn teneuo. Mae sôn am y Caernarfon and District yn diflannu, a dod yn ail adran i Gynghrair Gwynedd. Drwy fy sbectol bersonol 'ddi-duedd' rwy'n teimlo fy mod wedi bod yn lwcus i chwarae yn y C and D yn ystod yr oes aur ar ddiwedd y 60au a dechrau'r 70a'u.

Elfen arall yn sicr yw tyfiant poblogrwydd rygbi yn y parthau hyn. Rhaid canmol y nifer fechan a gadwodd y fflam ynghyn. Gwelwn erbyn hyn ffurfio 1404 Gogledd Cymru, ein tîm rhanbarthol. Ni allaf gytuno â'r penderfyniad i 'gryfhau' y garfan drwy fewnforio 10 chwaraewr o Ganada. Onid gwell fuasai cryfhau y garfan gyda'r chwaraewyr Cymreig ieuanc sy'n aelodau o'n carfanau rhanbarthol, ond sy'n eistedd ar y fainc yn rheolaidd.

Mae rhai pethau'n ddigyfnewid, ac mae Clwb Rhedeg Eryri yn dal i 'redeg' ac yn ymestyn profiadau nifer o'n hieuenctid. Mae Râs yr Wyddfa yr un mor heriol.

Un peth sydd wedi codi calon yn lleol fu llwyddiant disgyblion Ysgol Brynrefail mewn sawl camp, ond yn enwedig mewn pêl-droed, pêl-fasged ac athletau/ traws gwlad. Braf yw cofnodi hyn mewn cyfnod ble mae chwaraeon cystadleuol rhwng ysgolion yn diflannu'n gyflym. Boed i hyn barhau, dan arweiniad Phil Holland a'i olynydd, pan ddaw y dydd. Braf oedd gweld Malcolm Allen yn talu teyrnged i Dic Parry am ei gymorth ac arweiniad. O Ysgol wledig 'fach' daeth tipyn o sêr.

O edrych yn ôl bu ystod diddordebau yn y campau yn ymestyn dros y degawd, a daeth llwyddiannau hefyd mewn campau unigol fel nofio, golff a judo/ karate.

Diolch byth mae un elfen yn ddigyfnewid, a hynny yw'r llu o wirfoddolwyr sy'n barod i roi o'u hamser i drefnu, hyfforddi a chefnogi sawl clwb ac unigolyn. Hwy yw'r sêr ar ddiwedd y diwrnod.

### TYMOR RHEDEG MYNYDD

Prin bod tymor 2009 wedi dirwyn i ben nad yw tymor eleni yn ail-gychwyn. Erstalwm, roedd misoedd y gaeaf yn golygu rasys traws-gwlad, a'r rhedwyr mynydd yn eu defnyddio i baratoi am y tymor rasio mynydd a oedd, fel arfer, yn cychwyn tua canol Mawrth. Bellach, mae rasys mynydd yn cael eu cynnal gydol y flwyddyn: mae dros 500 o rasys wedi eu cynnwys yng nghalendr rasys mynydd gwledydd Prydain eleni.

Felly mae digon o ddewis, boed gartref neu ymhellach i ffwrdd. Bydd y tymor lleol yn cychwyn ar ddydd Sadwrn, 20fed o Chwefror, gyda ras Moelyci, yn cychwyn o fferm/canolfan amgylcheddol Moelyci, Lôn Felin Hen ger Tregarth. Mae'n bum milltir o hyd, gyda bron i fil o droedfeddi o ddringo i gopa Moelyci. Gellir cofrestru o 9.30 y bore, gyda'r ras yn cychwyn am 11.00.

Yn dilyn, ganol Mawrth, bydd Ras Moel Wnion o Lanllechid. Mae cwrs newydd wedi ei gynllunio eleni, felly, mae rhywun yn sicr o dorri'r record!

Erbyn Ebrill bydd y gyfres fytholwyrdd nosweithiau Mawrth yn cychwyn, gyda rasys yn rhoi blas ar redeg mynydd am y tro cyntaf i amryw. Roedd ymhell dros ddau gant o redwyr wedi cymryd rhan yn y gyfres y llynedd, ac mae'n mynd o nerth i nerth. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

# Y JACS YN GWAHODD

Daeth mwy o wybodaeth oddi wrth Geraint George ynglŷn â changen Jacs y Gogledd. Daeth mwy i'r ail gyfarfod yn y Bedol. Os oes gennych ddiddordeb dyma dri dyddiad i chwi gofio amdanynt.

**Cyfarfod Nesaf:** Nos Lun, Chwefror 8ed (Y Bedol) am 7.30pm.

**Dydd Sadwrn, Chwefror 20ed:** Trip i weld Derby County v Abertawe. I sicrhau tocyn anfonwch eich enw at Rhys Harris (01248 671 430) erbyn cyfarfod Chwefror 8ed.

**Nos Lun, Mawrth 22:** Cwis Chwareon yn y Bedol – ffurfiwch dimau.

Gyda llaw cafwyd copi o erthygl mis diwethaf o Eco'r Wyddfa yn gêm gartref diweddar Abertawe yn erbyn Crystal Palace.

# MERCH Y BELT DDU



Llongyfarchiadau y mis yma i Sara Burman o Lanrug. Hyfforddwr karate yw Sara ac mae'n rhedeg canolfan ar Stryd Fawr Llanberis. Yn ddiweddar llwyddodd Sara i gyrraedd lefel y 5ed Dan ar gyfer deiliaid y belt du. Hi bellach yw un o hyfforddwyr mwyaf profiadol y gamp yn y gogledd. Mae'r gamp yn ei gwaed, ac mae wedi ymddiddori yn karate a bocsio cic ers ugain mlynedd. Rhaid oedd meistroli sawl elfen a thechneg o'r gamp i gyrraedd y safon. I gymhlethu pethau roedd Sara wedi derbyn anaf i linyn y gâr. Gobeithio y bydd llwyddiant Sara yn denu mwy o gefnogaeth i'r stiwdio yn Llanberis. Yn sicr mae karate yn datblygu'n hynod boblogaidd ymysg yr ifanc. Rhaid disgwyl chwe blynedd yn awr nes caiff gyfle i geisio am y 6ed. Dan.

# EFFAITH YR EIRA ARWYR NEWYDD

Fe ddaeth yr eira 'leni, a gwelwyd y byd chwaraeon bron iawn yn cau i lawr yn llwyr, yn enwedig ar lefel lleol. Dim gemau, ac yn waeth, dim gemau ar y teledu. Fel yr hen ddyddiau fel petai. Gobeithio y bydd Llanrug yn gallu cipio pwyntiau o'r gemau mewn llaw i ddringo'r tabl.

Ond yn sicr ni fu'r fath drafod am hydoedd. Pam fod Benitez yn dal mewn swydd? Ydy seren Ferguson yn llai llachar, a dyledion y clwb yn dechrau effeithio ar ei ddylanwad? O Dde'r Affrig, a yw'r dechnoleg yn rhoi yr ateb iawn bob tro? Pa mor gryf o ran dyfnder yw rygbi Cymru?

Gyda llaw ar ran technoleg yn rheoli rhai penderfyniadau, rwyf o'i blaid. Ond, ym myd criced ar y lefel uchaf rhaid iddo fod ar gael ar bob achlysur. Ni ellir rhoi batiwr allan mewn un wlad ac nid mewn gwlad arall am nad yw technoleg fel 'snico' neu 'hotspot' ar gael.

Dros gyfnod yr eira fe gawsom ni ddau arwr Cymreig newydd, a'r ddau o'r gogledd. Dros nos daeth Martin Philips o Ddolgellau a Mark Webster o Ddinbych i sylw eang. Cyrhaeddodd Philips rownd gyn-derfynol Pencampwroiaeth y Byd (BDO) gan golli i Martin Adams a ddaeth yn bencampwr. Tipyn o gamp, ac fe fydd nifer yn edrych ymlaen i'w gyfarfod yn y gynghrair lleol a sirol.

Yn y bencampwriaeth byd arall ym Mhalas Alexandra enillodd Webster £60,000 drwy orffen yn drydydd. Curodd van Barnaveld am y safle, wedi iddo golli yn y rownd gyn-derfynol i wir seren y gamp, Phil 'The Power' Taylor.

Fel rhyw chwaraewr rhan amser rwyf wrth fy modd gyda Taylor. Dyma berffeithydd y gamp. Gwir bencampwr. O gofio ei record anhygoel, teg gofyn pam na welir ei enw ar restrau cystadleuaeth Personoliaeth y Flwyddyn.

Yn lleol, penderfynwyd y tlws dartiau cyntaf o'r tymor. Enillwyd Tlws yr Unigolyn o Gwmpas y Bwrdd i chwaraewyr ail adran Cynghrair Caernarfon a'r Cylch gan Ryan Williams (Y Bedol) gan guro ei wrthwynebydd o dîm yr Heights, Llanberis.